WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm Atodol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

## Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 623A2018-19

Rwyf wedi paratoi'r memorandwm hwn i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ei helpu i ystyried fy adroddiad o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Mae'r memorandwm hwn yn cynnwys dyfyniadau uniongyrchol o ddogfennau Saesneg a ddelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r dyfyniadau wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn y memorandwm hwn. Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y cyfieithiadau wedi cadw at yr ystyr wreiddiol, ni ellir gwarantu eu bod yn gyfieithiadau union. Er mwyn gweld y dyfyniadau ar eu ffurf wreiddiol, cyfeiriwch atm y copi Saesneg o'r memorandwm hwn.

# Cynnwys

Memorandwm Atodol – Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru


Crynodeb ....................................................................................................................4

Y rhesymau dros roi barn amodol ar reoleidd-dra ................................................................8

Methiant i ddangos rheswm da dros wyro oddi wrth bolisi CNC ..........................................9

Methiant i ddangos mai dim ond ystyriaethau perthnasol a ystyriwyd wrth bennu cyfeintiau contractau ..........................................................................................11

Methiant i gyfeirio gweithgareddau a chynigion anarferol, dadleuol a/neu adleisiol i Lywodraeth Cymru..........................................................................................13

Methiant i gydymffurfio â Chynllun Dirprwyo CNC ..........................................................15

Methiant i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Gorchymyn Sefydlu CNC a rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth bennu prisiau contractau ..............................................16

Prisiau Contractau ..........................................................................................16

Cymorth Gwladwriaethol ..........................................................................................18

1. Atodiad 1..........................................................................................................21

2. Gweithredu’r trefniadau trosiannol..............................................................................24

3. Dyfarnu contractau trosiannol....................................................................................38

4. Gwerthiannau cytundebol..........................................................................................45

# Memorandwm Atodol – Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan CNC

## Crynodeb

1 Ar 2 Mawrth 2017, gosodais adroddiad ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nododd yr adroddiad fy rhesymau dros roi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2015-16 CNC. Ar yr un pryd, cyflwynais femorandwm atodol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi rhagor o fanylion am fy rhesymau dros roi barn amodol ar reoleidd-dra. Roedd fy adroddiad a'm memorandwm yn ymwneud â phenderfyniad CNC i ddyfarnu wyth contract gwerthu pren hirdymor gwerth uchel i Weithredwr Melin Lifio yn 2014.

2 Fy nghanfyddiad oedd nad oedd CNC, wrth ymrwymo i'r contractau yn 2014:

- wedi cydymffurfio â'i fframwaith awdurdod, yn yr ystyr iddo fethu â chyfeirio'r cynnig i ddyfarnu'r contractau at Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;
- ei fod wedi methu â dangos ei fod wedi cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus yn y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio; yn yr ystyr nad oedd y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio yn gadarn nac yn dryloyw ac nad oedd CNC yn gallu rhoi digon o ddogfennaeth gyfoes i mi a oedd yn dangos yn ddigonol yr hyn a ystyriodd wrth benderfynu ymrwymo i'r contractau hyn â'r Gweithredwr Melin Lifio; a'i
- bod yn aneglur p'un a oedd CNC wedi cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol pan ymrwymodd i'r contractau â'r Gweithredwr Melin Lifio. Achoswyd yr ansicrwydd hwn o ganlyniad i benderfyniad CNC i ddyfarnu'r contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio heb gynnal unrhyw brofion perthnasol yn y farchnad, a'r ffaith nad oedd CNC yn gallu rhoi rhesymau darbwyllol i ategu casgliad y byddai ceisio darparwyr amgen wedi bod yn ofer.

3 Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ymchwiliad ei hun i'r materion yn fy adroddiad archwilio a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mehefin 2017. Daeth yr adroddiad i'r casgliad 'credwn y gallai ac y dylai CNC fod wedi sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith yn y broses gontractio, ac yn sgil ei fethiant i sefydlu trefniadau llywodraethu effeithiol, nid yw'n gallu dangos sut iddo weithredu'n gyfreithlon. Ni chredwn fod unrhyw dystiolaeth i ddangos a oedd y contractau yn cynrychioli gwerth am arian'. Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai CNC gynnal 'gwerthusiad llawn o'i drefniadau llywodraethu mewn perthynas â phrosesau contractio, gan amlinellu'n glir y gwersi a ddysgwyd gan gyfeirio'n benodol at y contractau gwerthu pren dan sylw yn yr adroddiad hwn'.

4 Wedyn, rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 CNC am yr un rhesymau a nodir ym mharagraff 2. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y contractau hirdymor yr ymrwymodd CNC iddynt ym mis Mai 2014 yn dal i fod yn weithredol a bod datganiadau ariannol 2016-17 wedi cynnwys incwm a oedd gysylltiedig â'r contractau hyn.

5 Roedd Memorandwm Cytundeb a oedd yn gysylltiedig â'r wyth contract hirdymor y cyfeiriwyd atynt yn fy adroddiad blaenorol wedi cynnwys gofyniad i'r Gweithredwr Melin Lifio adeiladu a dechrau gweithredu llinell lifio newydd yn ei felin lifio erbyn 31 Mawrth 2016 (a gafodd ei estyn drwy gytundeb wedyn i 31 Mawrth 2017). O dan delerau ac amodau'r Memorandwm Cytundeb (a gafodd ei adlewyrchu hefyd mewn rhai o'r contractau ond nid pob un), pe na bai'r llinell lifio yn cael ei hadeiladu a'i gweithredu erbyn y dyddiad hwn byddai'r Memorandwm a'r contractau yn cael eu terfynu. Ym mis Chwefror 2017, hysbysodd y Gweithredwr Melin Lifio CNC nad oedd yn bwriadu adeiladu'r llinell lifio.

6 Ym mis Mawrth 2017, dechreuodd CNC gyd-drafodaethau â'r Gweithredwr Melin Lifio gyda'r bwriad o roi trefniadau cytundebol trosiannol ar waith i fod yn weithredol o 31 Mawrth 2017 pan gâi'r contractau hirdymor eu terfynu. Y cynnig oedd y dylid cynnig contractau byrdymor i'r Gweithredwr Melin Lifio yn ystod y cyfnod pontio rhwng terfynu'r contractau hirdymor a CNC yn ailfarchnata cyfaint y pren yn y contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu. Câi'r contractau newydd hyn eu dyfarnu heb geisio cystadleuaeth gan y farchnad.

7 Erbyn 31 Mawrth 2017, roedd CNC wedi llunio cytundeb mewn egwyddor â'r Gweithredwr Melin Lifio. Fodd bynnag, ar y dyddiad hwnnw cysylltodd cwmni cynaeafu pren a oedd wedi gweithredu fel yr asiant cynaeafu ar y contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu (y Cwmni Cynaeafu Pren) â CNC. Gofynnodd y Cwmni Cynaeafu Pren, sy'n sefydliad hollol ar wahân i'r Gweithredwr Melin Lifio, am gael ei gynnwys yn y trefniadau cytundebol i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2017. Cytunodd CNC i ddyfarnu rhai o'r contractau trosiannol i'r Cwmni Cynaeafu Pren.

8 Cafodd y contractau hirdymor eu terfynu ar 31 Mawrth 2017 ac yn ystod 2017-18 ymrwymodd CNC i 59 o gontractau trosiannol. Dyfarnwyd 21 o'r contractau trosiannol i'r Gweithredwr Melin Lifio a chwmni cynaeafu pren yr oedd yn berchen arno (cwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio). Dyfarnwyd y 38 o gontractau a oedd yn weddill i'r Cwmni Cynaeafu Pren.

9 Mae datganiadau ariannol 2017-18 CNC yn cofnodi iddo gael incwm pren gwerth £2.76 miliwn mewn perthynas â'r 59 o gontractau trosiannol. Mae CNC yn rhagweld y bydd yn cael £0.18 miliwn arall yn 2018-19. Y ffigurau hyn yw pris gwerthu net y pren ar ôl i'r contractwr ddidynnu costau cynaeafu a chludo.

10 Fel y nodwyd ym mharagraffau 19 i 21, fel rhan o'm hadroddiad ar gyfrifon CNC, rwy'n ystyried rheoleidd-dra'r trafodion sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon CNC. Felly, ystyriais reoleidd-dra'r trafodion a oedd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2017-18 CNC mewn perthynas â'r contractau trosiannol. Nid oeddwn yn gallu fy modloni fy hun ynglŷn â rheoleidd-dra'r trafodion hyn ac felly rwyf wedi rhoi

barn amodol ar reoleidd-dra yn unol â hynny. Yn y memorandwm atodol hwn, rwyf wedi nodi'r rhesymau dros fy marn amodol, sef:

a) Gwyrodd CNC oddi wrth ei bolisi ei hun fel y'i nodir yn ei Gynllun Marchnata Pren cyhoeddedig ar gyfer 2017-22 pan ymrwymodd i 59 o gontractau gwerthu pren heb farchnata'r pren ar y farchnad agored. Nid yw CNC wedi llwyddo i ddangos bod ganddo reswm da dros wyro oddi wrth ei bolisi datganedig (gweler paragraffau 25 i 33).

b) Nid yw sail resymegol CNC dros bennu cyfaint y pren i'w gontractio o dan y trefniadau trosiannol wedi'i hategu gan y ddogfennaeth gyfoes sydd ar gael (gweler paragraffau 34 i 40).

c) Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â'i Dogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sydd, gyda'i gilydd, yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyfeirio cynigion anarferol, dadleuol /neu adleisiol at Lywodraeth Cymru. Rwyf o'r farn bod y cynnig i ymrwymo i'r contractau trosiannol yn anarferol, yn ddadleuol a/neu'n adleisiol. Er i CNC hysbysu Llywodraeth Cymru o'i fwriad i roi trefniadau trosiannol ar waith, ni chyfeiriodd y mater yn ffurfiol at Lywodraeth Cymru fel yr oedd yn ofynnol iddo ei wneud (gweler paragraffau 41 i 49).

d) Lluniodd Bwrdd CNC Gynllun Dirprwyo o dan ddarpariaethau Gorchymyn Sefydlu Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2012 (y Gorchymyn). Mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn rhoi pwerau dirprwyedig i ddeiliaid swyddi penodol CNC er mwyn cytuno ar gontractau gwerthu pren ar ran CNC. Ni chafodd 13 o'r contractau trosiannol eu hawdurdodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, ac felly rwyf o'r farn nad ymrwymwyd iddynt yn gyfreithlon (gweler paragraffau 50 i 59).

e) Mae Erthygl 8 o'r Gorchymyn yn nodi 'wrth ystyried p'un ai arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo gan unrhyw ddeddfiad neu o dano ai peidio, rhaid i CNC ystyried y costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o arfer y pŵer hwnnw neu beidio'. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ystyried y pris ar y farchnad am y pren a oedd yn cael ei werthu yn y contractau trosiannol wrth bennu prisiau'r contractau. O ganlyniad, nid wyf yn fodlon bod CNC wedi cydymffurfio ag Erthygl 8 o'r Gorchymyn nac ychwaith ei fod wedi ystyried pob ffactor perthnasol wrth wneud ei benderfyniadau (gweler paragraffau 60 i 71).

f) Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Rwyf o'r farn na ddilynodd CNC weithdrefnau priodol i'w fodloni ei hun bod ei weithredoedd yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth ymrwymo i'r contractau trosiannol. Ni cheisiodd sicrhau bod y prisiau yn y contractau yn unol â chyfraddau'r farchnad, a thrwy gyfaddefiad CNC ei hun, nid ystyriodd ei gyngor cyfreithiol ei hun a oedd wedi tynnu sylw at y risg o oblygiadau i'r trefniadau trosiannol o ran Cymorth Gwladwriaethol (gweler paragraffau 72 i 75).

11 O ganlyniad i’r materion a nodir ym mharagraff 10, mae cryn ansicrwydd gennyf p’un a weithredodd CNC yn unol â’i ddyletswyddau statudol, egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

12 Er bod fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2017-18 CNC yn canolbwyntio ar reoleidd-dra’r materion a nodir ym mharagraff 10, yn fy marn i, mae gwersi ehangach y mae angen i CNC eu dysgu.

13 Ym mis Chwefror 2017, roedd CNC yn wynebu sefyllfa lle y câi contractau pren sylweddol iawn eu terfynu ar ddiwedd mis Mawrth 2017. Roedd angen trefniadau amgen er mwyn sicrhau nad oedd terfynu’r contractau hyn yn cael effaith andwyol ar broseswyr na chwsmeriaid pren, nac ychwaith incwm CNC ei hun. Bu’n rhaid i CNC weithredu’n gyflym, ond, wrth ruthro, ni ddilynodd broses briodol ac anwybyddodd egwyddorion llywodraethu da. Canfu fy archwiliad y canlynol:

- roedd dogfennaeth y broses gwneud penderfyniadau yn gwbl annigonol;
- nid oedd yn glir pwy oedd wedi gwneud penderfyniadau na beth oedd y sail resymegol dros y penderfyniadau hynny;
- dechreuodd gweithrediadau cytundebol cyn i gontractau ysgrifenedig gael eu llofnodi;
- roedd cyfathrebu o ran y trefniadau trosiannol, yn fewnol a chyda Llywodraeth Cymru, yn anghyflawn, ac weithiau’n anghywir; ac
- roedd y cynnig i ymrwymo i drefniadau trosiannol yn sylweddol ac yn ddadleuol o bosibl, ond ni chraffwyd arno’n briodol. At hynny, ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau ysgrifenedig i Fwrdd CNC na’i Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg mewn perthynas â’r mater hwn cyn ymrwymo i’r trefniadau.

14 Mae’n siomedig bod natur frys y sefyllfa wedi codi am fod CNC wedi methu â monitro’r contractau hirdymor yn briodol ac wedi methu â chynllunio ar gyfer y sefyllfa lle y byddai’r contractau yn cael eu terfynu. Roedd CNC eisoes wedi estyn y gofyniad ar y Gweithredwr Melin Lifio i adeiladu llinell lifio newydd o flwyddyn i 31 Mawrth 2017, a phe na bai’r llinell lifio wedi cael ei hadeiladu a’i gweithredu erbyn y dyddiad hwnnw, byddai’r contractau’n methu. Mae’n cymryd rhwng 12 a 18 mis i adeiladu llinell lifio newydd fel arfer ac felly dylai CNC fod wedi bod yn ymwybodol sawl mis cyn mis Mawrth 2017 ei bod yn annhebygol iawn y byddai’r llinell lifio wedi cael ei hadeiladu. Roedd yn hollol ragweladwy y câi’r contractau eu terfynu a dylai CNC fod wedi datblygu cynlluniau manwl a fyddai wedi rhoi amser i’r Gweithredwr Melin Lifio a’r Cwmni Cynaeafu Pren ddod o hyd i gyflenwadau pren amgen ac wedi rhoi amser i CNC drefnu i farchnata’r pren yn y contractau hirdymor o 1 Ebrill 2017 a thrwy hynny darfu ar y farchnad cyn lleied â phosibl.

15 Pan gyflwynais adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 CNC roeddwn yn pryderu nad oedd CNC yn ymddangos fel pe bai’n derbyn fy meirniadaeth o’i weithredoedd yn llawn a’i fod yn ceisio bychanu ei harwyddocâd. Mae’r ffaith bod y materion a godwyd yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2017-18 CNC mor debyg i’r rhai a gynhwyswyd yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16

CNC wedi cadarnhau nad oedd CNC wedi trin canfyddiadau fy adroddiad yn 2015-16 yn ddigon difrifol.

16 Fodd bynnag, fe'm calonogir gan y ffaith, pan hysbysodd fy archwilwyr CNC o ganfyddiadau dros dro'r archwiliad hwn, fod ymateb CNC yn adeiladol, ei fod yn derbyn difrifoldeb y materion a godwyd, ac yn ymrwymo i sicrhau bod camau trwyadl yn cael eu cymryd i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu gwella ac yr ymdrinnir â phroblemau diwylliannol ac ymddygiadol. Mae CNC wedi dweud wrthyf ei fod yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol llawn o'r materion a godwyd yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol 2017-18 CNC. Bydd cwmpas yr adolygiad arfaethedig yn cynnwys ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheoli contractau gwerthu a marchnata pren. Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu defnyddio i lywio newidiadau i drefniadau gwerthu a marchnata pren CNC er mwyn sicrhau na fydd y materion a nodwyd yn fy adroddiad yn codi eto yn y dyfodol. Mae CNC yn anelu at sicrhau y caiff yr adolygiad annibynnol ei gwblhau erbyn hydref 2018.

17 Mae Atodiad 1 yn cynnwys cronoleg fanwl o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â dyfarnu'r contractau.

## Y rhesymau dros roi barn amodol ar reoleidd-dra

18 O dan Erthygl 23(5) o Orchymyn Sefydlu Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2012 (y Gorchymyn), mae'n ofynnol i mi:

- archwilio, ardystio a chyflwyno adroddiad ar ddatganiadau ariannol CNC;
- rhoi copi o'r datganiad cyfrifon ardystiedig ynghyd â'm hadroddiad arno i CNC; a
- heb fod yn hwyrach na phedwar mis ar ôl i'r datganiad cyfrifon gael ei gyflwyno, osod copi o'r datganiad cyfrifol ardystiedig a'm hadroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

19 Yn ogystal ag ardystio bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2018, rwy'n rhoi barn ar reoleidd-dra sy'n ardystio bod y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

20 Wrth roi fy marn ar reoleidd-dra, rwy'n llunio barn a yw CNC wrth arfer ei swyddogaethau, wedi:

- gweithredu o fewn ei gylch gwaith statudol;
- wedi cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;
- wedi gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus; ac
- wedi cydymffurfio â'r fframwaith awdurdod sy'n ei lywodraethu, e.e. darpariaeth Dogfen Fframwaith CNC a chyfarwyddiadau gweinidogol a roddir o dan Erthygl 11 o'r Gorchymyn.

21 Mae fy marn ar reoleidd-dra ar ffurf sicrwydd cadarnhaol, sy'n golygu fy mod yn nodi a yw'r trafodion y unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Pan fo cryn ansicrwydd p'un a yw trafodion yng nghyfrifon CNC yn afreolaidd a/neu'n anghyfreithlon, ni allaf roi barn glir ar reoleidd-dra'r cyfrifon, a hynny am na ellir yn rhesymol roi sicrwydd cadarnhaol lle ceir cryn ansicrwydd.

22 Mae gennyf amheuon a weithredodd CNC yn unol â'i ddyletswyddau statudol, egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth ddyfarnu 59 o gontractau gwerthu pren i dri chontractwr yn ystod 2017-18. O ganlyniad, ni allaf roi sicrwydd cadarnhaol bod y trafodion yn natganiadau ariannol 2017-18 CNC yn cydymffurfio a'r fframwaith awdurdod sy'n eu llywodraethu. Felly, rwyf wedi rhoi barn amodol ar rheoleidd-dra yn unol â hynny.

23 Fodd bynnag, nid yw penderfyniad yn anghyfreithlon oni bai a hyd nes bod Llys (neu, yn achos Cymorth Gwladwriaethol, Lys neu'r Comisiwn Ewropeaidd) yn datgan ei fod yn anghyfreithlon. Felly, yn niffyg her gyfreithiol, erys y contractau'n ddilys ac orfodadwy.

24 Yn yr adran ddilynol, rwyf wedi nodi'r hyn a ystyriwyd gennyf wrth wneud fy mhenderfyniad i roi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18 CNC.

## Methiant i ddangos rheswm da dros wyro oddi wrth bolisi CNC

25 Er mwyn i benderfyniad corff cyhoeddus fod yn gyfreithlon, mae'n rhaid iddo gael ei wneud yn unol â deddfwriaeth gymwys ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus (a) ystyried a (b) dilyn polisïau perthnasol, oni bai bod ganddynt reswm da dros wyro oddi wrthynt. Mae'n rhaid iddynt o leiaf nodi rhesymau clir dros y gwyriadau. Gall methiant i wneud hynny olygu bod penderfyniad, ac yn ei thro, eitem o gyfrif, yn anghyfreithlon. Mae cyfraith gyhoeddus hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw resymau a roddir yn cael eu cadarnhau.

26 Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd CNC Gynllun Marchnata Pren 2017-2022 (y Cynllun). Polisi yw'r cynllun yn y bôn, sy'n nodi sut y bydd CNC yn marchnata pren, a fydd ar y farchnad agored fel arfer. Mae'r Cynllun yn cynnwys yr amod 'o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, efallai y byddwn yn penderfynu negodi gwerthiant pren i gwsmeriaid sy'n gallu ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau annisgwyl'. Mae hyn yn awgrymu gofyniad brys i'r graddau mai'r penderfyniad fyddai negodi â chwsmeriaid sy'n gallu ymateb yn gyflym.

27 Rwyf wedi ystyried a oedd CNC yn wynebu amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl a brys a oedd yn golygu y gallai ddibynnu ar yr amod yn y Cynllun i ymrwymo i gontractau gwerthu pren heb geisio cystadleuaeth. Gellid disgwyl mai digwyddiad annisgwyl oedd y ffaith i'r contractau hirdymor gael eu terfynu'n gynnar, o ganlyniad i benderfyniad y Gweithredwr Melin Lifio i beidio ag adeiladu llinell lifio newydd.

28 Fodd bynnag, fel y'i nodir ym mharagraffau 13 i 14, dylid bod wedi disgwyl y digwyddiad hwn pe bai CNC wedi rheoli'r contractau hirdymor yn wahanol. Nodaf hefyd i Bennaeth Gweithrediadau Masnachol Dros Dro CNC ar y pryd (sydd bellach yn dal y swydd yn barhaol) ysgrifennu at y Gweithredwr Melin Lifio ar 15 Mawrth 2017 yn nodi y 'credwn mai'r camau y mae angen i ni eu cymryd yw dod â'r rhain [contractau hirdymor] i ben ac ailfarchnata'r cyfaint cyfatebol yn unol â'r cyfarwyddyd a nodwyd yn ein [Cynllun] pum mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar'.

29 Yn fy marn i, nid oedd hwn yn amgylchiad brys nac eithriadol, ac nid oedd gan CNC hawl i ddibynnu ar yr amod yn y Cynllun. Yn fy marn i, gwyrodd CNC oddi wrth ei bolisi pan benderfynodd beidio â marchnata'r contractau pren hyn ar y farchnad agored yn 2017-18.

30 Rwy'n cydnabod y gall cyrff cyhoeddus wyro oddi wrth eu polisïau eu hunain pan fyddant yn gyntaf wedi ystyried eu polisi ac yn ail yn gallu dangos rheswm da dros wneud hynny, ac rwy'n derbyn y gallai CNC fod wedi llunio achos rhesymol a sail resymegol dros wyro oddi wrth y Cynllun. Er enghraifft:

- Ar 16 Chwefror 2017, anfonodd Prif Weithredwr CNC ar y pryd e-bost at Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen i CNC ystyried y buddsoddiad a wnaed gan y Gweithredwr Melin Lifio a'r rôl y mae gwaith prosesu pren yn ei chwarae yn yr economi wledig (gweler Atodiad 1, paragraff 2.9). Rwy'n derbyn bod gan CNC rôl ddilys o ran cynnal y farchnad a chefnogi busnesau.
- Ym mis Mai 2017, ysgrifennodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Brif Weithredwr CNC ar y pryd (ond ar ôl gweithredu'r trefniadau trosiannol) yn rhoi'r rhesymau canlynol dros ddyfarnu'r contractau:
    - er mwyn osgoi niweidio'r gadwyn gyflenwi pren. Pe câi'r contractau hirdymor eu terfynu heb ddarpariaeth drosiannol, gallai contractwyr fod wedi bod yn ddi-waith er nad oedd unrhyw fai arnynt hwy; ac
    - er mwyn osgoi effeithio'n andwyol ar incwm pren CNC oherwydd byddai'r amser paratoi cyn marchnata'r pren wedi arwain at ostyngiad mawr yn incwm CNC (gweler Atodiad 1, paragraff 3.24).

31 Er bod yr uchod yn ymddangos yn rhesymau da, nid oes fawr ddim tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod y rhesymau hyn yn cael eu hystyried ar yr adeg yr ymrwymwyd i'r contractau. (Rwyf wedi canfod bod methiant CNC i gadw cofnodion cywir o'i broses gwneud penderfyniadau yn achos pryder penodol, gweler paragraff 13.)

32 At hynny, mae tystiolaeth arall a gyflwynwyd gan CNC yn awgrymu y gallai fod gan CNC resymau eraill a/neu amgen dros ymrwymo i'r contractau trosiannol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Roedd CNC yn ceisio gweithredu system TG rheoli pren newydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Roedd yn wynebu anawsterau sylweddol a oedd yn amharu ar allu CNC i farchnata pren ar y farchnad agored. Gallai hyn fod wedi bod yn rheswm da, ond nid yw CNC wedi ceisio dibynnu arno ac nid oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol iddo ddibynnu arno.
- Ar 23 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at Brif Weithredwr CNC ar y pryd yn trafod y cyfaint y gellid ei ddyfarnu o bosibl o dan drefniadau trosiannol. Noda'r e-bost y gallai cyfaint y pren gyda'r contractau hirdymor ar gyfer boncyffion ymyl ffordd gael eu hailfarchnata ym mis Ebrill 2017 ar gontractau byrdymor ac y byddai [y Gweithredwr Melin Lifio] yn gallu cynnig am gontractau newydd ochr yn ochr ag unrhyw gwsmer arall (gweler Atodiad 1, paragraff 2.19). Fodd bynnag, ar 28 Mawrth 2017, cynigiodd CNC 49,575 tunnell o foncyffion a bariau sbriws a llarwydd ymyl ffordd fel rhan o'r trefniadau trosiannol.
- Mae Pennaeth Marchnata presennol CNC, a gynorthwyodd Bennaeth Marchnata CNC ar y pryd yn y cyd-drafodaethau â'r Gweithredwr Melin Lifio, wedi dweud wrth fy archwilwyr y byddai wedi dilyn strategaeth negodi wahanol i'r un a ddilynwyd mewn gwirionedd. Byddai wedi cynnig llai o gyfaint trosiannol na'r hyn y cytunwyd arno a byddai wedi ceisio negodi'n gryfach ynglŷn â'r pris.

33 Felly, rwyf o'r farn nad yw CNC wedi llwyddo i ddangos bod ganddo reswm da dros wyro oddi wrth ei Gynllun pan ymrwymodd i 59 o gontractau gwerthu pren heb geisio cystadleuaeth yn y farchnad. Felly, nid wyf yn fodlon bod CNC wedi cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth ymrwymo i'r contractau, a bod y trafodion canlyniadol yn gyfreithlon.

## Methiant i ddangos mai dim ond ystyriaethau perthnasol a ystyriwyd wrth bennu cyfeintiau contractau

34 Ar 22 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd e-bost at y Gweithredwr Melin Lifio gyda chynnig i werthu 194,248m$^3$ obs o bren[1] i'r Gweithredwr Melin Lifio o dan drefniadau trosiannol (Atodiad 1, paragraff 2.25). O'r cyfaint hwn, roedd 8.1% ar gyfer boncyffion ymyl ffordd a bariau. Roedd y cynnig yn cyfateb i 41.1% o gyfeintiau'r contractau hirdymor presennol. Ar 28 Mawrth 2017, mewn cyfarfod â'r Gweithredwr Melin Lifio, cynyddodd CNC y cynnig i 251,973m$^3$ obs. O'r cyfaint hwn, roedd 24.4% ar gyfer boncyffion ymyl ffordd a bariau. Roedd y cynnig diwygiedig yn cyfateb i 43.3% o gyfaint y contract hirdymor (Atodiad 1, paragraffau 2.32 i 2.36).

[1] Mae un dunnell mewn pwysau o bren meddal yn cyfateb mewn cyfaint i tua 1.24 metr ciwbig obs

35 Dywedodd CNC wrth fy archwilwyr fod y cyfaint a gynigiwyd wedi'i bennu drwy gyfuniad o amcanion, er mwyn:

- sicrhau parhad cyflenwad i broseswyr pren i'w galluogi i gyflawni ymrwymiadau eu contractau;
- rhoi amser i gontractwyr coedwigaeth ddod o hyd i waith amgen; a
- rhoi'r amser paratoi roedd ei angen ar CNC i ailfarchnata'r pren yn raddol er mwyn osgoi rhoi gormod o bren ar y farchnad ar unrhyw adeg benodol.

36 Fodd bynnag, yn fy marn i, mae safbwynt CNC ar y mater hwn yn anghyson â dogfennaeth gyfoes sy'n awgrymu bod y cyfaint yn gysylltiedig â gwerth y buddsoddiad roedd y Gweithredwr Melin Lifio yn honni ei fod wedi'i wneud ar ei safle, yn hytrach na'r ffactorau a nodir ym mharagraff 35 uchod:

- Yn nodyn briffio mewnol CNC dyddiedig 17 Chwefror 2017, a oedd yn nodi opsiynau ar gyfer trefniadau trosiannol amlinellwyd y cynnig y byddai'r cyfaint trosiannol yn gymesur â swm y buddsoddiad roedd y Gweithredwr Melin Lifio wedi'i wneud yn ei felin lifio (gweler Atodiad 1, paragraffau 2.10 i 2.11).
- Mewn e-bost dyddiedig 20 Chwefror 2017, rhoddodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC gyfarwyddyd i Bennaeth Marchnata CNC ar y pryd 'i fireinio'ch proffil dadymrwymo yn seiliedig ar leihau cyfanswm y gwerth trosiannol i 40%' (gweler Atodiad 1, paragraff 2.14).
- Ar 31 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd e-bost at Brif Weithredwr CNC ar y pryd, yn nodi'r sail resymegol a ddefnyddiwyd i bennu'r cyfaint a gynigiwyd, 'defnyddiwyd dull colli ac ennill i wneud i'r cyfaint cyfan gydweddu â chymhareb y buddsoddiad a wnaed gan [y Gweithredwr Melin Lifio]' (gweler Atodiad 1, paragraffau 2.52 i 2.53).

37 Mae'n aneglur pam y cynyddodd y cyfaint trosiannol rhwng 22 Mawrth 2017 a 28 Mawrth 2017. Ymatebodd CNC i'r cwestiwn hwn drwy nodi i CNC 'sylweddoli'n fuan y byddai sefydlu a thendro'r contractau hynny wedi peryglu gallu CNC i gyflawni ei raglen gyffredinol drwy golli marchnad hollbwysig Gwanwyn a dechrau Haf 2017. Byddai hyn yn ei dro wedi tarfu ar y gadwyn gyflenwi a gallu contractwyr i ddod o hyd i waith arall. O ganlyniad, cytunwyd ar gynnydd yn y cyfaint trosiannol.' Er fy mod yn cydnabod ei bod yn bosibl mai hwn oedd y rheswm dros gynyddu'r cyfaint a gynigiwyd, nid oes gan CNC unrhyw ddogfennaeth gyfoes i ategu ei safbwynt. At hynny, nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw ddogfennaeth gyfoes i mi sy'n nodi'r penderfyniad i gynyddu cyfran y pren ymyl ffordd yn sylweddol o'i gymharu â choed sy'n sefyll yn y cynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio.

38 Mae CNC wedi cydnabod 'y dylai'r sail resymegol busnes, yr awydd i fentro a dogfennaeth i ategu sut y cyfrifwyd y cyfaint trosiannol fod wedi bod yn gliriach ac y dylid bod wedi craffu arnynt yn ehangach'.

39 Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried pob ystyriaeth berthnasol ac anwybyddu pob ystyriaeth amherthnasol wrth wneud penderfyniadau. Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus ddangos eu bod cydymffurfio â'r egwyddor hon yw drwy ddogfennu'r hyn a ystyriwyd ganddynt yn llawn.

40 Mae methiant CNC i ddogfennu'n briodol y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu'r contractau trosiannol yn gyffredinol, ac at bennu'r cyfaint trosiannol yn benodol. Mae'n golygu bod ansicrwydd sylweddol gennyf bellach p'un a wnaeth CNC ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, ac anwybyddu'r rhai amherthnasol.

## Methiant i gyfeirio gweithgareddau a chynigion anarferol, dadleuol a/neu adleisiol i Lywodraeth Cymru

41 Y brif ddogfen sy'n rhoi awdurdod ar gyfer trafodion CNC yw'r Ddogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi bod cymorth grant yn cael ei dalu i CNC ar yr amod bod CNC yn cyflawni ei holl rwymedigaethau, sy'n cynnwys cydymffurfio â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r gofyniad i gydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ymwneud ag adran 70 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2) sy'n nodi 'the Welsh Ministers may attach conditions to the giving of financial assistance by them; and the conditions which may be attached include, in particular, conditions requiring the repayment of the whole or any part of a grant, or the making of any other payments, in any circumstances.'

42 O dan y teitl 'Gwariant', mae paragraff 3.9.1 o Ddogfen Fframwaith CNC yn dweud: Bydd CNC yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad 5. Mae Atodiad 5 yn nodi bod angen cymeradwyaeth tîm noddi perthnasol Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw gynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol.

43 Mae paragraff 3.9.8 o'r Ddogfen Fframwaith yn darparu bod yn rhaid i weithgarwch cynhyrchu incwm CNC gael ei gynnal yn unol â thelerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Ddogfen Fframwaith. Hefyd, mae paragraff 1.2.9 o'r Ddogfen Fframwaith yn nodi bod Prif Weithredwr CNC, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol yn bersonol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

44 Rwyf wedi ystyried y fersiwn ddiweddaraf o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru (Ionawr 2016). Mae'r ddogfen hon yn dweud 'paragraff 3.8.2: Mae'r ddogfen fframwaith (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) y cytunwyd arni rhwng corff cyhoeddus a'i noddwr bob amser yn darparu bod y Gangen sy'n noddi yn goruchwylio, mewn modd ystyrlon, strategaeth a pherfformiad, trefniadau talu a/neu drafodion ariannol mawr y corff cyhoeddus, ee drwy ffurflenni misol, dirprwyo safonol, adroddiadau ar eithriadau. Dylai cyrff cyhoeddus gyfeirio unrhyw faterion yr ymddengys eu bod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol at y Gangen sy'n eu noddi'.

45 Mae Dogfen Fframwaith CNC yn nodi mewn perthynas â gwariant fod yn rhaid i CNC gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynnig a allai

gael ei ystyried yn un anarferol, dadleuol neu adleisiol. Fodd bynnag, o ran incwm (gan gynnwys enillion gwaredu o Ystad Coetir Llywodraeth Cymru) mae'n nodi bod 'yn rhaid i CNC geisio sicrhau'r incwm mwyaf posibl hyd y gellir... lle mae hyn yn gyson â'i swyddogaethau ac yn unol â'r Cynllun Corfforaethol y cytunwyd arno'.

46 Yn fy marn i, roedd yn ofynnol i CNC gyfeirio unrhyw gynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol sy'n ymwneud ag incwm at Lywodraeth Cymru. Rwyf o'r farn bod y contractau trosiannol yn anarferol, yn ddadleuol a/neu'n adleisiol oherwydd:

- ni chafodd y contractau eu hysbysebu ar y farchnad agored ac ni chawsant eu dyfarnu yn unol â Chynllun Marchnata Pren CNC (gweler paragraffau 25 i 33).
- roedd y contractau â'r Cwmni Cynaeafu Pren yn cynnwys cymal roedd CNC yn ei ddisgrifio'n 'eithriadol' (roedd y cymal yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni Cynaeafu Pren werthu boncyffion a bariau sbriws a llarwydd i'r Gweithredwr Melin Lifio (gweler Atodiad 1, paragraff 3.8).
- Roedd CNC yn amlwg yn ystyried bod terfynu'r contractau hirdymor a chyflwyno trefniadau trosiannol yn faterion o bwys gan ei fod yn teimlo bod angen cyfathrebu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion hyn.

47 Rwy'n cydnabod bod CNC wedi cyfathrebu â Llywodraeth Cymru o ran ei fwriad i ymrwymo i drefniadau trosiannol. Mewn e-byst gan CNC ar 15 Mawrth 2017 ac yna ar 3 Ebrill 2017 at Lywodraeth Cymru nodwyd yn fras fwriad CNC i lunio contract â'r Gweithredwr Melin Lifio, a rhoddwyd atodlen o'r cyfeintiau o bren roedd CNC yn ceisio eu cynnwys mewn contract â'r Gweithredwr Melin Lifio (Atodiad 1, paragraffau 2.23 a 2.49). Fodd bynnag,

- nid yw Llywodraeth Cymru na CNC yn ystyried bod y negeseuon e-bost hyn wedi'u llunio i gyfeirio cynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru eu trin fel y cyfryw; ac
- nid oedd y negeseuon e-bost yn cynnwys manylion llawn y cynigion. Fel y'i nodir yn Atodiad 1, paragraff 2.50, ni chyfeiriwyd at y cynnig i gontractio â'r Cwmni Cynaeafu Pren ac ni chofnodwyd y cyfaint i'w gontractio o dan y trefniadau trosiannol yn gywir.

48 Mae CNC bellach yn derbyn y dylai'r cynigion fod wedi cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru fel rhai anarferol, dadleuol a/neu adleisiol ac mae o'r farn y dylai fod wedi gofyn am gymeradwyaeth i ymrwymo i'r contractau trosiannol.

49 Yn fy marn i, ni fodlonodd CNC ofynion y Ddogfen Fframwaith na gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru i gyfeirio cynnig anarferol, dadleuol a/neu adleisiol at Lywodraeth Cymru. Rwyf o'r farn bod y trafodion sy'n ymwneud â'r contractau hyn sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol CNC ar gyfer 2017-18 y tu allan i'r fframwaith awdurdod sy'n eu llywodraethu ac felly eu bod yn afreolaidd. O ganlyniad, rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18 CNC.

## Methiant i gydymffurfio â Chynllun Dirprwyo CNC

50 Nodir swyddogaethau CNC yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys ymgymryd ag unrhyw un o swyddogaethau datganoledig y Comisiynwyr Coedwigaeth. Felly, mae gan CNC y pwerau i reoli'r ystâd goedwig o dan berchenogaeth gyhoeddus a gwneud penderfyniadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno'n effeithiol. Mae Gorchymyn 2012 yn nodi y caiff CNC awdurdodi un o'i bwyllgorau, ei is-bwyllgorau, ei aelodau neu ei gyflogeion i arfer unrhyw un o'i swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys ymrwymo i gontractau â chyflenwyr allanol a phrynwyr.

51 Mae Bwrdd CNC wedi cymeradwyo Cynllun Dirprwyo Ariannol o'r enw 'Rheoli ein Harian'. O dan y cynllun hwn mae pob un o weithgareddau ariannol CNC wedi cael ei ddirprwyo i lefel awdurdod neu ddeiliad swydd penodol y cytunwyd arni/arno. Mae'n caniatáu i'r Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar faterion ariannol penodol.

52 Drwy'r Cynllun Dirprwyo mae Bwrdd CNC yn dirprwyo ei swyddogaeth o ran ymrwymo i gontractau i aelodau unigol o staff ac mae'n ffordd o reoli risg a gonestrwydd ariannol. Os nad yw awdurdodiadau contractau yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo bydd trafodion mewn perthynas â'r contractau hyn yn eitemau o gyfrif sy'n anghyfreithlon.

53 Fel y'i nodir yn Atodiad 1, paragraff 3.3 i 3.5, mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn nodi'r deiliaid swydd sydd wedi cael eu hawdurdodi i ymrwymo i gontractau gwerthu pren, a gwerthoedd y contractau y mae eu dirprwyaethau yn berthnasol iddynt.

54 Cafodd pob un o'r contractau trosiannol ei awdurdodi'n unigol gan swyddogion CNC.

55 Fel y'i nodir yn Atodiad 1, paragraff 3.6, ni chafodd 13 o'r 59 o gontractau trosiannol eu hawdurdodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo. Nid yw CNC wedi gallu rhoi tystiolaeth bod pum contract wedi'u hawdurdodi a chafodd wyth eu hawdurdodi gan swyddogion CNC heb y ddirprwyaeth angenrheidiol i awdurdodi dyfarnu contractau o'r gwerth a gymeradwywyd ganddynt.

56 Amcangyfrifwyd bod y contractau heb eu hawdurdodi'n briodol yn werth £2,752,248 a chafodd CNC incwm o £1,868,773 mewn perthynas â'r contractau hyn yn 2017-18.

57 Nodaf hefyd fod Cynllun Dirprwyo Ariannol CNC yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiad ar rai gweithreoedd dirprwyedig ar lefel Bwrdd, pan fyddant yn ymwneud â symiau mawr o arian neu pan fyddant yn ddadleuol, yn anarferol neu'n sensitif o bosibl'. Fel y'i nodir ym mharagraffau 41 i 49, rwyf o'r farn bod y penderfyniad i ddyfarnu'r 59 o gontractau trosiannol hyn yn anarferol ac yn ddadleuol. Ni chafodd Bwrdd CNC wybod am y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau trosiannol ac felly rwyf o'r farn bod hyn yn achos arall o fynd yn groes i Gynllun Dirprwyo CNC.

58 Mae CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod o’r farn, o edrych yn ôl, y byddai wedi bod yn well pe bai’r dasg o gymeradwyo’r contractau wedi cael ei hystyried ar y cyd, gan gydnabod y ffaith bod y contractau wedi’u negodi ar y cyd. Fel y’i nodir yn Atodiad 1, paragraff 2.15, nodaf fod Prif Weithredwr CNC ar y pryd wedi dweud bod angen iddo gadarnhau unrhyw gytundeb terfynol ar y trefniadau trosiannol, ond am ryw reswm, ni wnaeth awdurdodi na chadarnhau’r trefniadau’n ffurfiol. Fodd bynnag, rwy’n cydnabod nad oedd y Cynllun Dirprwyo Ariannol, fel y’i drafftiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i gontractau cydamserol lluosog sy’n cael eu dyfarnu i un cyflenwr gael eu hystyried ar y cyd at ddibenion dirprwyo, ac nad oedd ychwaith yn rhoi’r pŵer i Brif Weithredwr CNC awdurdodi’r contractau neu ddiwygio’r llinellau dirprwyo.

59 Rwyf o’r farn, yn yr achosion hynny lle mae CNC wedi methu â chydymffurfio â’i Gynllun Dirprwyo, fod y trafodion sydd wedi’u cynnwys yn natganiadau ariannol 2017-18 CNC yn anghyfreithlon. O ganlyniad, rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol CNC.

# Methiant i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Gorchymyn Sefydlu CNC a rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth bennu prisiau contractau

## Prisiau Contractau

60 Yn ystod fy archwiliad o’r contractau trosiannol cafodd fy archwilwyr gryn anhawster i gael eglurder gan CNC ynglŷn â

- sut y pennwyd y prisiau roedd yn cael eu talu am bren a werthwyd gan CNC o dan gontractau trosiannol;
- sut y bwriedid i’r dull prisio yn y contractau i werthu coed sy’n sefyll i’r Cwmni Cynaeafu Pren a chwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio weithredu’n ymarferol;
- a’r hyn a ystyriwyd gan CNC wrth gytuno ar brisiau contractau.

61 Gellid priodoli’r diffyg eglurder hwn i fethiant CNC i gadw cofnodion priodol o’i gyd-drafodaethau ar brisiau, a’r ffordd roedd y cyfraddau y cytunwyd arnynt wedi cael eu cymhwyso yn y contractau eu hunain. O ganlyniad, roedd yr archwiliad yn un hirfaith a hynny’n ddiangen, a bu’n rhaid i’m harchwilwyr wneud llawer mwy o waith na’r hyn a ddisgwylid pe bai CNC wedi dogfennu ei gyd-drafodaethau ar brisiau’n ddigonol.

62 Nodir y cyfeiriad cyntaf at brisiau contractau trosiannol yn nodiadau cyfarfod rhwng CNC a’r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2017, lle y cytunodd CNC i gyflwyno cynnig prisiau ar gyfer y contractau trosiannol (gweler Atodiad 1, paragraff 3.10). Nid yw CNC wedi gallu dod o hyd i gopi o unrhyw gynnig prisiau a gyflwynwyd i’r gweithredwr.

63 Ar 31 Mawrth 2017, anfonodd y Gweithredwr Melin Lifio e-bost i CNC yn cadarnhau'r prisiau y byddai'n eu talu am foncyffion a bariau sbriws a llarwydd. Roedd y prisiau a nodwyd yn gynnydd ar y prisiau am bren llarwydd yn y Contractau Hirdymor a oedd wedi'u terfynu (Atodiad 1, paragraff 3.10). Cadarnhaodd e-bost mewnol a anfonwyd gan un o swyddogion CNC at gyd-swyddogion ar 21 Ebrill 2017 y prisiau y cytunwyd arnynt i bob golwg a nododd hefyd y swm y gellid ei ddidynnu o'r pris gwerthu am gostau cludo (Atodiad 1, paragraff 3.13).

64 Ar y dechrau, dywedodd CNC wrth fy archwilwyr fod y prisiau a nodwyd yn yr e-byst dyddiedig 31 Mawrth 2017 a 21 Ebrill 2017 yn gymwys i bob un o'r contractau trosiannol, gan gynnwys y contractau ar gyfer gwerthu coed sy'n sefyll a ddyfarnwyd i'r Cwmni Cynaeafu Pren a chwmni cynaeafu'r Gweithredwr Melin Lifio.

65 Fodd bynnag, canfu fy archwilwyr fod y symiau a nodwyd yn y cyfraddau cludo ar gyfer contractau gwerthu coed sy'n sefyll yn uwch na'r cyfraddau a nodwyd yn yr e-bost dyddiedig 21 Ebrill 2017 yn y rhan fwyaf o achosion. O ganlyniad, cafodd CNC lai o incwm nag y byddai wedi'i gael pe bai'r cyfraddau a nodwyd yn yr e-bost dyddiedig 21 Ebrill 2017 wedi cael eu cymhwyso.

66 Canfu fy archwilwyr hefyd fod 17 o'r contractau â'r Cwmni Cynaeafu Pren (a ddosbarthwyd yn gontractau 'cyflenwad arfaethedig' gan CNC am fod y contractau yn ymwneud ag ardaloedd o goedwig lle roedd gweithrediadau cwympo coed wedi dechrau cyn 31 Mawrth 2017), yn cymhwyso'r cyfraddau a nodwyd yn y contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu. Pe bai'r prisiau am foncyffion a bariau sbriws a llarwydd fel y'u nodwyd yn yr e-byst dyddiedig 31 Mawrth 2017 a 21 Ebrill2017 wedi cael eu cymhwyso at bob contract trosiannol, rwyf wedi cyfrifo y byddai CNC wedi cael £186,231 yn fwy o incwm yn ystod 2017-18 na'r hyn a gafodd mewn gwirionedd.

67 Rwy'n derbyn bod gan CNC yr hawl i gymhwyso cyfraddau cludo gwahanol at y contractau â'r Cwmni Cynaeafu Pren a chwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio na'r rhai y cytunwyd arnynt â'r Gweithredwr Melin Lifio. Rwyf hefyd yn derbyn bod gan CNC yr hawl i gysoni'r prisiau a bennwyd yn y contractau cyflenwad arfaethedig â'r rhai a oedd yn gymwys i'r contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu. Fodd bynnag, mae'n annerbyniol yn fy marn i nad yw CNC wedi cadw unrhyw gofnodion sy'n nodi ei resymau dros gymhwyso'r prisiau a gymhwysodd at y contractau trosiannol.

68 Gall CNC bennu'r pris ar gyfer gwerthu pren, ond, mae'r pris ar y farchnad yn ffactor perthnasol y dylai CNC fod wedi'i ystyried wrth bennu prisiau'r contractau. At hynny, mae'r pris ar y farchnad yn berthnasol o ran a yw CNC yn rhoi mantais anghyfreithlon o bosibl yn groes i'r rheolau ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol (gweler paragraffau 72 i 75).

69 Mae fy archwilwyr wedi cymharu'r prisiau a gafodd CNC am werthu pren o dan y contractau trosiannol yn erbyn:

i. data Mynegeion Prisiau Pren y Comisiwn Coedwigaeth hyd at fis Mawrth 2017; a

ii. phrisiau gwerthiannau cyfartalog CNC ar gyfer chwarter cyntaf 2017-18.

Er nad yw'r dadansoddiad hwn yn ystyried yr holl newidynnau posibl, mae'n awgrymu bod amheuaeth fawr p'un a gafodd y contractau eu prisio yn ôl cyfraddau'r farchnad (ond nodaf fod y Gweithredwr Melin Lifio yn haeru bod y contractau trosiannol a ddyfarnwyd iddo wedi'u prisio yn ôl cyfraddau'r farchnad). At hynny, cafodd y prisiau a gontractiwyd ar gyfer y contractau cyflenwad arfaethedig a ddyfarnwyd i'r Cwmni Cynaeafu Pren eu pennu yn unol â chyfraddau'r contractau hirdymor. Mae CNC eisoes wedi cydnabod mewn nodyn briffio mewnol dyddiedig Chwefror 2017 fod yr incwm o gontractau hirdymor y Gweithredwr Melin Lifio bryd hynny £1m yn is nag y gellid bod wedi'i sicrhau ar y farchnad agored (gweler Atodiad 1, paragraff 2.2).

70 Mae Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu CNC 2012 (y Gorchymyn) yn nodi 'wrth ystyried p'un ai arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo gan unrhyw ddeddfiad neu o dano ai peidio, rhaid i'r Corff ystyried y costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o arfer y pŵer hwnnw neu beidio'. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ystyried y pris ar y farchnad (ac felly Gymorth Gwladwriaethol) wrth bennu prisiau o dan y contractau. Mae CNC wedi cydnabod, er bod ei gynghorwyr cyfreithiol wedi cynghori y gallai fod i'r trefniadau trosiannol oblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol (gweler Atodiad 1, paragraffau 2.16 i 2.17) ni wnaeth CNC ystyried y risg hon na mynd i'r afael â hi.

71 Wrth fethu ag ystyried p'un a oedd y contractau trosiannol wedi'u prisio ar gyfraddau'r farchnad, nid wyf wedi cael fy modloni bod CNC wedi cydymffurfio ag Erthygl 8 o'i Orchymyn nac wedi ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol.

## Cymorth Gwladwriaethol

72 Mae'r wybodaeth a ystyriwyd gennyf mewn perthynas â phrisio'r contractau trosiannol hefyd yn peri i mi amau a oedd CNC wedi cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE wrth ddyfarnu'r contractau trosiannol. Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw gymorth a roddir gan un o Aelod-wladwriaethau'r UE neu drwy adnoddau Gwladwriaeth ar ba ffurf bynnag y bo, sy'n ystumio neu'n bygwth ystumio cystadleuaeth drwy ffafrio ymgymeriadau penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol, i'r graddau y mae'n effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau (Erthygl 107 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd). Mae darparu Cymorth Gwladwriaethol yn anghyfreithlon oni chaiff ei awdurdodi ymlaen llaw, naill ai drwy 'esemptiad bloc' neu drwy awdurdodiad unigol a roddir gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn ymateb i hysbysiad gan y Wladwriaeth berthnasol.

73 Cafodd CNC gyngor gan ei gynghorwyr cyfreithiol ar 20 Chwefror 2017 y gallai fod i drefniadau trosiannol oblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol (gweler Atodiad 1, paragraffau 2.16 a 2.17) Fodd bynnag, nid ymddengys bod CNC wedi ystyried y cyngor hwn wrth ymrwymo i'r contractau trosiannol.

74 Rwyf o'r farn na ddilynodd CNC weithdrefnau priodol i'w fodloni ei hun ei fod yn gweithredu mewn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol wrth ymrwymo i'r contractau trosiannol, gan na cheisiodd sicrhau bod y prisiau yn y contractau yn unol â chyfraddau'r farchnad, a thrwy gyfaddefiad CNC ei hun, nid ystyriodd ei gyngor cyfreithiol ei hun a oedd wedi tynnu sylw at y risg y gallai fod i'r trefniadau trosiannol oblygiadau o ran Cymorth Gwladwriaethol.

# Atodiad 1 – Amserlen sy’n ymwneud â dyfarnu 59 o gontractau gwerthu pren gan CNC i weithredwr melin lifio a dau gwmni cynaeafu pren yn 2017-18 fel rhan o drefniadau trosiannol

# Rhan 1

## 1. Atodiad 1

1.1. Ar 2 Mawrth 2017, gosodais adroddiad ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi fy rhesymau dros roi barn amodol ar reoleidd-dra cyfrifon 2015-16 CNC. Cyflwynais hefyd femorandwm atodol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi rhagor o fanylion am y materion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfrifon CNC. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.2. Roedd yr adroddiad ar y cyfrifon yn ymwneud â dyfarnu wyth contract gwerthu pren hirdymor gan CNC ym mis Mai 2014 a oedd yn gysylltiedig â Memorandwm Cytundeb. O dan delerau'r contractau, cytunodd CNC i werthu coed sy'n sefyll a choed wedi'u cwympo ymlaen llaw i weithredwr melin lifio (y Gweithredwr Melin Lifio). Roedd y Gweithredwr Melin Lifio yn defnyddio cwmni cynaeafu pren (y Cwmni Cynaeafu Pren) i gynaeafu'r coed sy'n sefyll. Fel un o amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r contractau, cytunodd y Gweithredwr Melin Lifio y byddai'n adeiladu ac yn gweithredu llinell lifio newydd ar ei safle yng Nghymru erbyn 31 Mawrth 2016. Cafodd y terfyn amser hwn ei estyn drwy gytundeb y ddau barti wedyn i 31 Mawrth 2017.

1.3. Nid oeddwn yn gallu rhoi barn ddiamod ar reoleidd-dra cyfrifon CNC am y rhesymau canlynol:

- ni chydymffurfiodd CNC â'i fframwaith awdurdod yn yr ystyr iddo fethu â chyfeirio'r cynnig i ddyfarnu'r contractau at Lywodraeth Cymru (cynnig a oedd yn ddadleuol ac yn adleisiol mewn sawl ffordd) yn unol â gofynion cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;

  methodd CNC â dangos ei fod wedi cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus yn y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio. Deuthum i'r casgliad nad oedd y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio yn gadarn nac yn dryloyw ac nad oedd CNC yn gallu rhoi digon o ddogfennaeth gyfoes i mi a oedd yn dangos yn ddigonol yr hyn a ystyriodd wrth benderfynu ymrwymo i'r contractau hyn â'r Gweithredwr Melin Lifio. Cymaint oedd yr ansicrwydd fel nad oeddwn yn gallu dod i gasgliad pendant bod y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio yn un rheolaidd; a

- Roedd amheuaeth p'un a oedd CNC wedi cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol pan ymrwymodd i'r contractau â'r Gweithredwr Melin Lifio. Achoswyd yr ansicrwydd hwn o ganlyniad i benderfyniad CNC i ddyfarnu'r contractau i'r Gweithredwr Melin Lifio heb gynnal unrhyw brofion perthnasol yn y farchnad, a'r ffaith nad oedd CNC yn gallu rhoi rhesymau darbwyllol i ategu casgliad y byddai ceisio darparwyr amgen wedi bod yn ofer.

1.4. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei ymchwiliad ei hun i'r materion a ddygais i'w sylw mewn perthynas â'r contractau hirdymor a chyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2017, gan argymell bod CNC yn:

- 'cynnal gwerthusiad llawn o'i drefniadau llywodraethu mewn perthynas â phrosesau contractio, gan amlinellu'n glir y gwersi a ddysgwyd gan gyfeirio'n benodol at y contractau gwerthu pren dan sylw yn yr adroddiad hwn;.
- adolygu ei drefniadau dirprwyo ochr yn ochr â chodi ymwybyddiaeth o gyfraith Cymorth Gwladwriaethol, cyfraith gyhoeddus a'r prosesau ar gyfer dyfarnu contractau. Rydym yn argymell bod canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel y gall y Pwyllgor hwn fonitro gwaith gweithredu a chynnydd yn erbyn y newidiadau a nodwyd; ac
- yn adolygu ei drefniadau llywodraethu mewnol er mwyn sicrhau bod ei swyddog cyfrifyddu, y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd yn cyfrannu mwy o lawer at graffu ar brosesau contractio craffu a dyfarnu contractau. Mae'n hanfodol bwysig bod y prosesau hyn yn rhai cadarn gyda thrywydd archwilio clir ac amlwg bod penderfyniadau wedi eu cymryd ar sail deg a chadarn'.

1.5. Ar 5 Gorffennaf 2017, ysgrifennodd Prif Weithredwr CNC ar y pryd at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn derbyn ei argymhellion yn llawn. Wedyn, rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2016-17 CNC am yr un rhesymau a nodir ym mharagraff 1.3. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y contractau hirdymor yr ymrwymodd CNC iddynt ym mis Mai 2014 yn dal i fod yn weithredol a bod datganiadau ariannol 2016-17 wedi cynnwys incwm a oedd gysylltiedig â'r contractau hyn.

1.6. Fel y'i nodwyd ym mharagraff 1.2, Roedd Memorandwm Cytundeb a oedd yn gysylltiedig â'r wyth contract hirdymor y cyfeiriwyd atynt yn fy adroddiad blaenorol wedi cynnwys gofyniad i'r Gweithredwr Melin Lifio adeiladu a dechrau gweithredu llinell lifio newydd yn ei felin lifio erbyn 31 Mawrth 2016 (a gafodd ei estyn drwy gytundeb wedyn i 31 Mawrth 2017). O dan y Memorandwm Cytundeb (a gafodd ei adlewyrchu hefyd mewn rhai o'r contractau ond nid pob un), pe na bai'r llinell lifio yn cael ei hadeiladu a'i gweithredu erbyn y dyddiad hwn byddai'r contractau yn cael eu terfynu. Ym mis Chwefror 2017, hysbysodd y Gweithredwr Melin Lifio CNC nad oedd yn bwriadu adeiladu'r llinell lifio.

1.7. Ym mis Mawrth 2017, dechreuodd CNC gyd-drafodaethau â'r Gweithredwr Melin Lifio gyda'r bwriad o roi trefniadau cytundebol trosiannol ar waith i fod yn weithredol o 1 Ebrill 2017 pan gafodd y contractau hirdymor eu terfynu. Y cynnig oedd y dylid cynnig contractau byrdymor i'r Gweithredwr Melin Lifio yn ystod y cyfnod pontio rhwng terfynu'r contractau hirdymor a CNC yn ailfarchnata cyfaint y pren yn y contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu. Câi'r contractau hyn eu dyfarnu heb geisio cystadleuaeth gan y farchnad.

1.8. Erbyn 31 Mawrth 2017, roedd CNC wedi llunio cytundeb mewn egwyddor â'r Gweithredwr Melin Lifio. Fodd bynnag, ar y dyddiad hwnnw cysylltodd cwmni cynaeafu pren a oedd wedi gweithredu fel yr asiant cynaeafu ar y contractau hirdymor a oedd wedi'u terfynu (y Cwmni Cynaeafu Pren) â CNC. Gofynnodd y Cwmni Cynaeafu Pren, sy'n sefydliad hollol ar wahân i'r Gweithredwr Melin Lifio, am gael ei gynnwys yn y trefniadau cytundebol i'w rhoi ar waith o 1 Ebrill 2017. Cytunodd CNC i ddyfarnu rhai o'r contractau trosiannol i'r Cwmni Cynaeafu Pren.

1.9. Cafodd y contractau hirdymor eu terfynu ar 31 Mawrth 2017 ac yn ystod 2017-18 ymrwymodd CNC i 59 o gontractau byrdymor. Dyfarnwyd 21 o'r contractau trosiannol i'r Gweithredwr Melin Lifio a chwmni cynaeafu pren yr oedd yn berchen arno (cwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio). Dyfarnwyd y 38 o gontractau a oedd yn weddill i'r Cwmni Cynaeafu Pren. Bwriad datganedig CNC oedd sicrhau 'proses o ddirwyn y contractau hirdymor i ben yn drefnus'.

1.10. Mae datganiadau ariannol 2017-18 CNC yn cofnodi iddo gael incwm pren gwerth £2.76 miliwn mewn perthynas â'r 59 o gontractau trosiannol. Mae CNC yn rhagweld y bydd yn cael £0.18 miliwn arall yn 2018-19. Y ffigurau hyn yw pris gwerthu net y pren ar ôl i'r contractwr ddidynnu costau cynaeafu a chludo.

1.11. Ar ôl ystyried amgylchiadau dyfarnu'r contractau hyn, mae gennyf bryderon mawr ynglŷn â rheoleidd-dra'r broses o ddyfarnu'r contractau a'r trafodion sy'n gysylltiedig â'r contractau hyn. O ganlyniad, rwyf wedi rhoi barn amodol ar reoleidd-dra cyfrifo ariannol 2017-18 CNC. Nodir y rhesymau dros fy marn amodol ym mharagraff 10 o'r memorandwm atodol.

1.12. Yn yr atodiad hwn, nodaf y digwyddiadau a arweiniodd at y sefyllfa lle ymrwymodd CNC i'r trefniadau trosiannol.

# Rhan 2

## 2. Gweithredu’r trefniadau trosiannol

### Cafodd y contractau hirdymor a ddyfarnwyd i’r Gweithredwr Melin Lifio eu terfynu ym mis Mai 2014

2.1 Ar 17 Ionawr 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC (sydd bellach wedi’i benodi i’r swydd yn barhaol) e-bost at Brif Weithredwr CNC ar y pryd yn nodi bod ‘ein [Contractau Hirdymor] â’r [Gweithredwr Melin Lifio] ar gyfer pren llarwydd wedi’u cysylltu â therfyn amser ar gyfer buddsoddiadau yn [safle’r Gweithredwr Melin Lifio]. Y disgwyliad oedd y dylai’r llinell newydd fod yn weithredol erbyn diwedd mis Mawrth 2016. Rhoddwyd estyniad y llynedd er mwyn rhoi 12 mis arall iddo wneud y buddsoddiad. Mae [Pennaeth Marchnata CNC] yn gofyn am y diweddaraf gan [y Gweithredwr Melin Lifio] ar gynnydd y buddsoddiad [ar ei safle]. Fodd bynnag, yr arwyddion yw bod cryn lithriant eto’. Mae’r e-bost hefyd yn nodi, am fod prisiau pren wedi codi ers i’r contractau gael eu dyfarnu yn 2014, eu bod bellach yn cynnig gwerth gwael am arian. Gofynnodd y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro am ganiatâd Prif Weithredwr CNC ar y pryd iddo ‘gloriannu’r sefyllfa a’r opsiynau er mwyn eich briffio ac argymell ffordd ymlaen’.

2.2 Ar 31 Ionawr 2017, cyn cyfarfod a oedd wedi’i drefnu â chynrychiolwyr y Gweithredwr Melin Lifio, anfonodd y Prif Weithredwr ar y pryd e-bost at Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC yn gofyn am wybodaeth am berfformiad y contractau. Ymatebodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC ar 3 Chwefror 2017 drwy roi papur briffio drafft yn nodi pryderon ynglŷn â pherfformiad y contractau a oedd yn cynnwys:

- roedd y Gweithredwr Melin Lifio ond wedi gwneud tua £5m o’r buddsoddiad cyfalaf disgwyliedig gwerth £17m ar ei safle yng Nghymru ac nad oedd y llinell lifio newydd y cytunwyd arni yn y Memorandwm Cytundeb wedi cael ei hadeiladu.
- roedd y Memorandwm Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i’r Gweithredwr Melin Lifio fynd ati i ehangu’r farchnad ar gyfer cynhyrchion llarwydd, gan gynyddu gwerth cyffredinol y sylfaen cynnyrch a chanolbwyntio ar ddatblygu pren llarwydd yn y farchnad adeiladu. Nododd y papur briffio, er bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi gwneud ymdrech i gynyddu faint o bren llarwydd oedd yn cael ei brynu gan y farchnad adeiladu, fod llawer o’r pren llarwydd a gynhyrchwyd yn ei felin lifio wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu cynhyrchion wedi’u llifio ar gyfer y farchnad paneli ffensio, nad oedd yn farchnad newydd nac yn gynhyrchion adeiladu ac nad oedd ychwaith yn cynnig gwerth uwch ar y farchnad.
- nid oedd y Gweithredwr Melin Lifio wedi bod yn hyblyg o ran y dull prisio’r contractau, a gan fod gwerth pren llarwydd ar y farchnad wedi cynyddu ers i’r contractau gael eu dyfarnu, roedd CNC wedi cael tua £1m yn llai o incwm

nag y byddai wedi'i sicrhau pe bai'r pren wedi cael ei farchnata ar y farchnad agored.

2.3 Casgliad y papur briffio, o ystyried bod yr amgylchiadau wedi newid ers i'r contractau gael eu dyfarnu yw y byddai'n 'ei gwneud yn hynod anodd cyfiawnhau estyniad arall yn yr amserlen ar gyfer cwblhau'r buddsoddiad'.

2.4 Ar 8 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC gyfarwyddiadau cyfreithiol drwy e-bost at gynghorwyr cyfreithiol CNC yn gofyn cyngor ar 'ba mor gryf yw ein hachos dros beidio â rhoi estyniad arall i'r terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau o bosibl ac, yn lle hynny, derfynu'r contractau'.

2.5 Ar 13 Chwefror 2017, gwnaeth cynghorwyr cyfreithiol CNC gynghori, os na allai'r Gweithredwr Melin Lifio gydymffurfio â'r terfyn amser ar gyfer adeiladu a gweithredu'r safle newydd a bod CNC yn gwrthod cytuno i unrhyw gais am estyniad arall, y byddai'r contractau a'r Memorandwm Cytundeb cyffredinol a oedd yn eu cysylltu yn cael eu terfynu. Cynghorwyd y gellid defnyddio'r posibilrwydd o derfynu'r contractau i ailnegodi telerau'r Memorandwm Cytundeb a'r contractau gyda'r bwriad o amrywio'r cytundebau neu ymrwymo i gytundeb newydd. Fodd bynnag, dylai unrhyw gyd-drafodaethau o'r fath fynd rhagddynt ar y sail na fyddent yn effeithio ar safbwynt CNC, sef y câi'r Memorandwm Cytundeb a'r contractau eu terfynu'n weithredol o 31 Mawrth 2017.

2.6 Ar 16 Chwefror 2017, cyfarfu Prif Weithredwr CNC ar y pryd a Phennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC â chynrychiolwyr y Gweithredwr Melin Lifio i adolygu'r contractau a thrafod y cynnydd a oedd yn ei wneud gan y Gweithredwr Melin Lifio i adeiladu'r llinell lifio newydd a dechrau ei gweithredu erbyn 31 Mawrth 2017.

2.7 Mae nodiadau CNC o'r cyfarfod hwn yn cofnodi i'r Gweithredwr Melin Lifio hysbysu CNC nad oedd yn fasnachol hyfyw iddo adeiladu'r llinell lifio roedd wedi ymrwymo i'w hadeiladu o dan y contract (llinell lifio i brosesu bariau bach/byr), ond bod 'lle i ehangu o ran trin boncyffion mwy o faint' ar yr amod na châi'r contractau hirdymor eu terfynu.

2.8 Mae'r nodiadau hefyd yn cofnodi'r canlynol:

- dywedwyd wrth y Gweithredwr Melin Lifio y câi'r contractau eu terfynu pe na bai'r llinell lifio yn cael ei hadeiladu a'i gweithredu erbyn 31 Mawrth 2017; a
- gwnaeth y Gweithredwr Melin Lifio fygwth dwyn achos yn erbyn CNC i adennill y £4m y dywedodd y Gweithredwr Melin Lifio ei fod eisoes wedi'i fuddsoddi, cau ei safle yng Nghymru ac y byddai 'CNC yn wynebu rhai anawsterau gwleidyddol o ystyried y swyddi roedd y [felin lifio] yn eu cefnogi a'r cyfraniad economaidd y mae'n ei wneud'.

2.9 Ar 16 Chwefror 2017, anfonodd Prif Weithredwr CNC ar y pryd e-bost at Lywodraeth Cymru yn atodi dogfen friffio a amlinellodd yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017. Nodwyd y byddai CNC yn ysgrifennu at y Gweithredwr Melin Lifio yn nodi ei safbwynt ac wrth ddrafftio'r llythyr hwn y byddai CNC 'yn ystyriol o'r buddsoddiadau y mae'r [Gweithredwr Melin Lifio] eisoes wedi'u gwneud ar ei safle yng Nghymru a'r rôl y mae'r diwydiant prosesu pren yn ei chwarae yn yr economi wledig'.

2.10 Ar 17 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC bapur briffio drafft (wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru) at Brif Weithredwr CNC ar y pryd yn amlinellu hanes y contractau hirdymor a phedwar opsiwn ar gyfer rheoli'r cyfeintiau o bren a oedd yn y contractau â'r Gweithredwr Melin Lifio ar y pryd ar ôl 31 Mawrth 2017. Nodwyd yn erbyn pob opsiwn risgiau a manteision canfyddedig. Roedd yr opsiynau fel a ganlyn:

Arddangosyn 1: opsiynau ar gyfer rheoli'r cyfeintiau o bren

**Opsiwn 1** – Caniatáu terfynu'r contractau ar ddiwedd mis Mawrth 2017 ar y sail na châi'r llinell lifio newydd ei hadeiladu.

**Opsiwn 2** – Ailnegodi'r contractau hirdymor drwy derfynu rhai contractau a chaniatáu i rai contractau redeg am gyfnod estynedig neu nes bod cyfnod y contractau wedi dod i ben. Câi'r cyfaint is ei gyfrifo ar 40% o gyfaint gwreiddiol y contractau hirdymor, h.y. yn gymesur â swm y buddsoddiad cyfalaf disgwyliedig (£10m) yn hytrach na'r swm a fuddsoddwyd mewn gwirionedd gan y Gweithredwr Melin Lifio (£4m).

**Opsiwn 3** – Ailnegodi'r contractau hirdymor ac ailbennu uned pris sylfaenol y pren er mwyn adlewyrchu gwerth y pren ar y farchnad agored.

**Opsiwn 4** – Cytuno i estyniad arall ar gyfer y buddsoddiad a/neu negodi buddsoddiad cyfalaf amgen gan y Gweithredwr Melin Lifio er mwyn cynyddu ei allu i brosesu pren.

2.11 Mae'r nodyn briffio yn amlinellu rhai o ystyriaethau CNC wrth ddatblygu'r opsiynau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gellid disgwyl i'r bygythiad i ddileu swyddi 'achosi dadleuon gwleidyddol'; a
- byddai'r Gweithredwr Melin Lifio yn 'wynebu sefyllfa anodd pe bai CNC yn terfynu'r [contractau hirdymor]. Mae'r cwmni wedi dweud na all sicrhau cyllid ar gyfer buddsoddiadau, heb fod gwarant o ran sylweddol o'r cyfaint sydd ei angen. Yn y cyfamser, mae proseswyr pren eraill wedi bod yn gwneud buddsoddiadau sylweddol heb [gontractau hirdymor] â CNC'.

2.12 Gofynnodd y papur briffio am farn Llywodraeth Cymru ar yr opsiynau a'r argymhellion. Sut bynnag, mae CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr bod ei Prif Weithredwr ar y pryd wedi penderfynu peidio ag anfon y papur brifio at Lywodraeth Cymru ar y sail iddo benderfynu bod y materion yn y papur briffio yn rhai i CNC benderfynu arnynt. Gwnaeth CNC friffio Llywodraeth Cymru ar lafar ar ddatblygiadau ond ni soniodd wrth Lywodraeth Cymru am yr opsiynau yr oedd yn eu hystyried.

2.13 Ar 17 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC e-bost at gynghorwyr cyfreithiol CNC yn atodi nodiadau'r cyfarfod rhwng CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio ar 16 Chwefror 2017 a chopi o'r nodyn briffio drafft a oedd

wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru (paragraff 2.2). Gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol am ragor o gyngor cyfreithiol ar y materion cytundebol a fodolai rhwng CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio.

2.14 Ar 20 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at Bennaeth Marchnata CNC, y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi, 'Credaf mai Opsiwn 2 yw'r un mwyaf priodol fwy na thebyg am ei fod yn canolbwyntio ar leihau'r cyfaint o dan gontract yn gymesur â'r buddsoddiadau anghyflawn, ond heb gyflwyno cymhlethdod gorfod newid prisiau' a gofynnodd i'r Pennaeth Marchnata 'a allwch fireinio'ch proffil dadymrwymo yn seiliedig ar leihau cyfanswm cyfaint [y contractau hirdymor] i 40%'.

2.15 Ar 20 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC e-bost at gynghorwyr cyfreithiol CNC yn diweddaru eu cyfarwyddiadau dyddiedig 17 Chwefror 2017 ac yn atodi copi o'r e-bost oddi wrth y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro (gweler paragraff 2.14). Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol yn nodi bod Prif Weithredwr CNC ar y pryd 'o'r farn mai tîm CNC ddylai gynnal y cyd-drafodaethau ar yr amod y byddai angen iddo ef, fel Swyddog Cyfrifyddu, gadarnhau unrhyw gytundeb terfynol (ac mae'n ychwanegu, yng ngoleuni [fy adroddiad drafft ar y pryd ar gyfrifon 2015-16 CNC], y byddai angen i CNC ystyried proses graffu gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd)'. Mae hefyd yn mynegi'r farn ei bod 'yn rhy gynnar i geisio "cymeradwyaeth" Llywodraeth Cymru' am na wyddom sut y gallai'r cyd-drafodaethau fynd rhagddynt'.

2.16 Ar 20 Chwefror2017, gwnaeth cynghorwyr cyfreithiol gynghori fel a ganlyn:

- gan nad oedd y llinell lifio wedi cael ei hadeiladu y câi'r contractau eu terfynu ar 31 Mawrth 2017;
- mae'r ffaith bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi buddsoddi tua £4m yn amherthnasol yn eu barn hwy gan nad oedd llinell lifio newydd wedi cael ei hadeiladu ac nad oedd yn weithredol, ac ni allent weld unrhyw sail bosibl i'r Gweithredwr Melin Lifio hawlio yn erbyn CNC;
- mewn perthynas â'r opsiynau a amlinellwyd, nid oedd unrhyw ddarpariaethau ar gyfer amrywio'r contractau gwreiddiol a byddai'n well pe bai CNC yn negodi contractau newydd; ac
- roedd i opsiynau 2, 3 a 4 oblygiadau posibl o ran Cymorth Gwladwriaethol.

2.17 Gwnaeth cynghorwyr cyfreithiol CNC hefyd ddychwelyd copi o fatrics opsiynau CNC a oedd wedi'i gynnwys yn y papur briffio drafft y cyfeirir ato ym mharagraff 2.10 gyda diwygiadau awgrymedig wedi'u holrhain mewn coch. Tynnodd y diwygiadau hyn sylw at y ffaith y gallai fod i'r broses o ailnegodi contractau â'r Gweithredwr Melin Lifio oblygiadau o ran caffael a/neu Gymorth Gwladwriaethol.

2.18 Ar 21 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC lythyr drafft wedi'i gyfeirio at y Gweithredwr Melin Lifio drwy e-bost at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC, ynghyd â chopi at gydweithwyr eraill yn CNC, yn cofnodi'r hyn a oedd wedi cael ei drafod yn y cyfarfod ar 16 Chwefror 2017 ac yn nodi safbwynt CNC mewn perthynas â'r contractau hirdymor presennol.

Rhannwyd y llythyr drafft â chynghorwyr cyfreithiol CNC a awgrymodd nifer o ddiwygiadau i'r drafft.

2.19 Ar 23 Chwefror 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC y llythyr diwygiedig wedi'i gyfeirio at y Gweithredwr Melin Lifio drwy e-bost at Brif Weithredwr CNC ar y pryd. Nododd yr e-bost eglurhaol 'mai'r paragraff olaf [o'r llythyr] sy'n cynnwys y gwahoddiad i gynnig dirwyn y contractau coed sy'n sefyll i ben yw'r ffordd y gall [y Gweithredwr Melin Lifio] gyd-drafod a dod o hyd i ateb. Mae tua 65% o'r cyfaint o dan gontract yn werthiannau coed sy'n sefyll ac mae rhesymau gweithredol pam na ddylai'r rhain gael eu terfynu ar 31 Mawrth. Nid yw'r un peth yn wir am y contractau ar gyfer boncyffion ymyl ffordd, lle y gallwn barhau i reoli'r gweithrediadau cynaeafu tra byddwn yn ailfarchnata'r cyfaint o fis Ebrill ar gontractau byrdymor y gallai'r [Gweithredwr Melin Lifio] gynnig amdanynt ochr yn ochr ag unrhyw gwsmer arall'.

2.20 Ar 24 Chwefror 2017, ysgrifennodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at y Gweithredwr Melin Lifio. Mae'r llythyr terfynol yn nodi bod yn y cyfarfod ar 16 Chwefror 2017:

- bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi cael ei hysbysu y câi'r contractau eu terfynu pe na bai'r llinell lifio yn weithredol erbyn 31 Mawrth 2017;
- bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi bygwth dwyn achos yn erbyn CNC pe câi'r contractau eu terfynu; a
- bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi haeru ei fod wedi gwneud buddsoddiad cyfalaf gwerth £4m yn ei safle yng Nghymru.

2.21 Yn y llythyr dyddiedig 24 Chwefror 2017, gofynnodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC hefyd am fanylion y sail dros unrhyw hawliad gan y Gweithredwr Melin Lifio yn erbyn CNC a gofynnodd am dystiolaeth o'r buddsoddiadau roedd y Gweithredwr Melin Lifio wedi honni ei fod eisoes wedi'u gwneud (gwerth tua £4m yn ôl y sôn). Anfonodd CNC gopi o'i lythyr at y Gweithredwr Melin Lifio ymlaen at Lywodraeth Cymru er gwybodaeth.

2.22 Ar 7 Mawrth 2017, ymatebodd y Gweithredwr Melin Lifio i lythyr CNC gan fygwth hawliad cyfreithiol unwaith eto. Er i'r llythyr restru buddsoddiadau a wnaed, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i ategu swm y buddsoddiad cyfalaf yr haerodd y Gweithredwr Melin Lifio ei fod wedi'i wneud ar ei safle.

## Cynnig cyfaint o bren yn y dyfodol i'r Gweithredwr Melin Lifio

2.23 Ar ôl derbyn llythyr y Gweithredwr Melin Lifio dyddiedig 7 Mawrth 2017, drafftiodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC lythyr at y Gweithredwr Melin Lifio yn nodi safbwynt CNC ac yn adlewyrchu'r cyngor roedd cynghorwyr cyfreithiol allanol CNC wedi'i roi iddo. Noda'r llythyr, a anfonwyd at y Gweithredwr Melin Lifio ar 15 Mawrth 2017 'rydym yn gwerthfawrogi'r rôl y mae'r [felin lifio] yn ei chwarae yn y gadwyn gyflenwi pren yng Nghymru a hoffem sicrhau eich bod yn cael cyfle i brynu cyfaint amgen cyn i'r [contractau hirdymor] ddod i ben. Credwn hefyd, er mwyn gwneud hyn a sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau am y pren, fod angen i ni gyflwyno'r cyfleoedd prynu yn raddol dros gyfnod. Felly rydym yn cynnig y dylid

cyfarfod â chi, heb ragfarn, i drafod proffil ar gyfer cyflwyno'r dyddiadau diwedd y [contractau hirdymor] yn raddol mewn dilyniant a fyddai'n ein galluogi i farchnata'r cyfaint a rhoi cyfle i chi brynu cyfaint cyfatebol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi bwysleisio y byddai'r cyfleoedd prynu ar y farchnad agored a'u bod yn debygol o fod ar ffurf contractau byrdymor yn bennaf yn unol â'r Cynllun Marchnata presennol. Os [hoffech] dderbyn y cynnig o gau'r [contractau hirdymor] yn raddol, byddai angen i ni ymrwymo i Femorandwm Cytundeb newydd ar gyfer y cyfnod gan y bydd y Memorandwm presennol yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth'. Anfonodd CNC gopi o'r llythyr at Lywodraeth Cymru er mwyn ei hysbysu o'r datblygiadau diweddaraf.

2.24 Mae Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr iddo gael galwad ffôn gan gynrychiolydd y Gweithredwr Melin Lifio ar 17 Mawrth 2017 a ddywedodd wrtho yr hoffai'r Gweithredwr Melin Lifio dderbyn y cynnig i drafod 'cynllun trosiannol'. Mae Pennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr iddo hysbysu Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd drwy e-bost a gofyn i'r Pennaeth Marchnata ar y pryd baratoi proffil cyflenwi ar gyfer cyfaint trosiannol y gellid ei gynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio erbyn canol yr wythnos ddilynol.

2.25 Ar 22 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd yn gofyn iddo baratoi memorandwm cytundeb diwygiedig 'ar gyfer y cyfnod lle rydym yn terfynu'r contractau'n raddol'. Noda'r e-bost fod Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd wedi llunio atodlen y byddai'n ei rhannu â'r Gweithredwr Melin Lifio. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, anfonodd Pennaeth Marchnata CNC e-bost at y Gweithredwr Melin Lifio yn atodi taenlen yn nodi'r cynllun trosiannol arfaethedig a fyddai'n dod i rym ar ôl i'r contractau hirdymor gael eu terfynu ar 31 Mawrth 2017. Nododd y daenlen fod CNC yn barod i werthu'r cyfaint canlynol o bren i'r Gweithredwr Melin Lifio ar ôl y dyddiad terfynu fel rhan o'r trefniadau trosiannol.

Tabl 1: Cyfaint trosiannol i'w gynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio fel y'i nodwyd mewn e-bost gan Bennaeth Marchnata CNC at y Gweithredwr Melin Lifio ar 22 Mawrth 2017

| | Cyflenwad Arfaethedig Ymrwymedig | Cyfaint Ychwanegol | Cyfanswm y Cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 7,700 o dunelli | 5,000 o dunelli | 12,700 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 49,500$m^3$ obs | 129,000$m^3$ obs | 178,500$m^3$ obs |
| **Cyfanswm yr unedau cyflenwi** | **57,200** | **134,000** | **191,200** |

2.26 Roedd cyfaint ‘y cyflenwad arfaethedig ymrwymedig’ yn ymwneud â chwblhau gwaith cwympo coed mewn ardaloedd coedwig lle roedd gweithrediadau wedi dechrau cyn 31 Mawrth 2017. Roedd cyfanswm y cyfaint trosiannol roedd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd yn cynnig ei roi i’r Gweithredwr Melin Lifio yn cyfateb i tua 22.9% o’r pren y nododd CNC yn ei Strategaeth Marchnata Pren y byddai’n ei werthu i’r farchnad yn 2017-18.

2.27 Mae’r daenlen yn cofnodi bod y cyfaint trosiannol, o’i adio at y cyfaint roedd y Gweithredwr Melin Lifio eisoes wedi’i gael o dan y contractau hirdymor cyn 31 Mawrth 2017, yn golygu byddai’r Gweithredwr Melin Lifio wedi cael 41.1% o’r cyfaint a oedd wedi’i gontractio yn 2014.

2.28 Mae’r daenlen hefyd yn nodi cynlluniau CNC i ryddhau pren (a fu’n rhan o’r contractau hirdymor) ar y farchnad i’w werthu drwy dendr agored yn ystod 2017-18. Noda y byddai 90,685 tunnell o bren yn cael eu rhyddhau mewn gwerthiannau cystadleuol rhwng 31 Mai 2017 a 28 Chwefror 2018.

2.29 Ar 24 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd e-bost at Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC ac yna’r Pennaeth Marchnata yn nodi ei bod yn hanfodol bod cyfarfod dros y ffôn yn cael ei gynnal â chynghorwyr cyfreithiol CNC er mwyn llunio’r Memorandwm Cytundeb diwygiedig yn derfynol ac iddo ef a chynghorwyr cyfreithiol CNC ‘ddeall y darlun negodi oedd yn dod i’r amlwg yn hyn o beth. Yn benodol, [a yw’r Gweithredwr Melin Lifio] bellach wedi nodi y bydd yn bodloni i’r drefn ac yn cytuno i broses o ddirwyn y [contractau hirdymor] i ben yn drefnus?’

2.30 Ar 27 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd e-bost at y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro ac yna’r Pennaeth Marchnata yn eu hatgoffa y câi’r contractau hirdymor eu terfynu ar 31 Mawrth 2017 pe na bai CNC yn cymryd unrhyw gamau eraill ac yn nodi cyngor pellach roedd cynghorwyr cyfreithiol CNC wedi’i roi iddo yn cyfeirio at yr angen i CNC gydymffurfio â’r cymalau ôl-derfynu yn y contractau hirdymor, sef galluogi’r Gweithredwr Melin Lifio symud unrhyw goed a dorrwyd cyn y dyddiad terfynu a symud ei adeiladau, ei gyfarpar ei hun, ac ati, oddi ar dir CNC. Pwysleisiodd ‘ei bod yn bwysig bod CNC yn gweithredu’n unol â’r holl ddarpariaethau ôl-derfynu yn y contract ac fel petai’r contract wedi dod i ben neu fel arall gallai’r [Gweithredwr Melin Lifio] haeru bod y contract wedi parhau ar yr un telerau a bod CNC wedi hepgor y darpariaethau terfynu’.

2.31 Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, ysgrifennodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd yn nodi ‘nid wyf yn siŵr a fydd y darpariaethau ôl-derfynu yn ddigon wrth i ni geisio sicrhau cyfnod pontio didrafferth o gyflenwi ar y contractau hyn i ddechrau contractau newydd (a allai neu na allent gael eu prynu gan [y Gweithredwr Melin Lifio]). Rydym yn anelu at gytuno ar gyfres o ddyddiadau diwedd gwasgarog ar gyfer gwahanol gontractau â’r [Gweithredwr Melin Lifio] yfory (29ain). Er y bydd rhai contractau yn dod i ben ar unwaith ac y gall y cymalau ôl-derfynu fod yn gymwys o bosibl, bydd eraill yn parhau am rai wythnosau neu fisoedd’. Ar 28 Mawrth 2017, ymatebodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd i’r Pennaeth

Gweithrediadau Masnachol dros dro drwy nodi, 'efallai ein bod yn camddeall ein gilydd. Nid wyf finnau (na'n cynghorwyr cyfreithiol) yn awgrymu y dylem ddibynnu ar y darpariaethau ôl-derfynu wrth negodi'.

## Cyd-drafodaethau â'r Gweithredwr Melin Lifio

2.32 Ar 28 Mawrth 2017, cyfarfu Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC, y Pennaeth Marchnata ar y pryd a'r Pennaeth Cynaeafu ar y pryd â chynrychiolydd y Gweithredwr Melin Lifio i drafod cytundeb rhwng y Gweithredwr Melin Lifio a CNC yn y dyfodol. Mae nodiadau'r cyfarfod yn cofnodi i'r cynnig gael ei wneud 'gyda'r bwriad o lunio cytundeb ynglŷn â'r cyfeintiau i'w cynnig a'u trin yn ystod 2017-18 er mwyn hwyluso'r broses o ddirwyn y [contractau hirdymor] i ben yn drefnus. Mae'r cynnig yn ceisio ei gwneud yn bosibl i broses ddidrafferth o drawsnewid pren i'r farchnad, rhoi amser i'r gadwyn gyflenwi ymaddasu gan fod cludwyr a chontractwyr pren ynghlwm wrth y contractau hyn, gyda rhai yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn llafur/cyfarpar a rhoi amser i'r cwmni addasu ei broffil prynu i gyflenwi'r felin lifio'.

2.33 Mae'r nodiadau hefyd yn cofnodi i CNC gynnig 41,875 tunnell o goed wedi'u cwympo a 141,000m$^3$ obs o goed sy'n sefyll dros gyfnod o flwyddyn (cyfanswm o 182,875 o unedau cyflenwi), gyda'r cyfaint yn cael ei ddileu'n raddol dros bedwar chwarter y flwyddyn ariannol gyda 97.7% o'r cyfaint trosiannol yn cael ei werthu erbyn 31 Rhagfyr 2017 fel y dengys tabl 2.

Tabl 2: Y bwriad i ddileu cyfaint y contract trosiannol yn raddol yn unol â'r cyfarfod rhwng CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2018 (heb gynnwys cyfaint y cyflenwad arfaethedig)

| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 16,750 o dunelli | 12,561 o dunelli | 8,375 o dunelli | 4,189 o dunelli | 41,875 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 78,000m$^3$ obs | 51,000m$^3$ obs | 12,000m3 obs | - | 141,000m3 obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **94,750** | **63,561** | **20,375** | **4,189** | **182,875** |
| % y cyfaint trosiannol | 51.8% | 34.8% | 11.1% | 2.3% | 100% |

2.34 Yn ôl nodiadau'r cyfarfod 'caiff cyfeintiau gwerthiannau coed sy'n sefyll eu darparu drwy lennyrch newydd a chaiff y llennyrch sy'n cael eu torri ar hyn o bryd eu trin fel cyfaint cyflenwad arfaethedig. Rhagwelir mai cyfanswm terfynol ar gyfer pob contract fydd 928,000 o unedau gwerthu. Mae hyn yn cyfateb i 43.3% o'r cynnig gwreiddiol', h.y. roedd y cyfaint trosiannol a'r cyfaint cyflenwad arfaethedig, o gael eu hadio at y cyfaint roedd y Gweithredwr Melin Lifio eisoes wedi'i gael o dan y

contractau hirdymor cyn 31 Mawrth 2017, yn golygu byddai'r Gweithredwr Melin Lifio wedi cael 43.3% o'r cyfaint a oedd wedi'i gontractio yn 2014.

2.35 Mae nodiadau'r cyfarfod yn cyfeirio at 'gyfaint cyflenwad arfaethedig' ond nid ydynt yn nodi'n benodol p'un a yw'r 182,875 o unedau cyflenwi a gynigiwyd yn y cyfarfod yn cynnwys 'cyfaint cyflenwad arfaethedig', y datganiad bod 'hyn yn cyfateb i 43.3% o'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol'. Mae'r datganiad yn awgrymu i 57,200 o unedau cyfaint cyflenwad arfaethedig gael eu cynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio yn ogystal â'r 182,875 o unedau. Felly, roedd y cynnig yn gwneud cyfanswm o 240,075 o unedau cyflenwi, sef cynnydd o 29.7% (mewn $m^3$ obs) o gymharu'r cynnig a e-bostiwyd at y Gweithredwr Melin Lifio ar 22 Mawrth 2017.

Tabl 3: Cymharu'r cyfaint trosiannol y cynigiwyd y dylid ei gynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio gan Bennaeth Marchnata CNC ar 22 Mawrth 2017 a'r cyfaint a gynigiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio mewn cyfarfod ar 28 Mawrth 2017

| Cynnig 22 Mawrth 2017 | Cyflenwad arfaethedig ymrwymedig | Cyfaint ychwanegol | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 7,700 o dunelli | 5,000 o dunelli | 12,700 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 49,500$m^3$ obs | 129,000$m^3$ obs | 178,500m3 obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **57,200** | **134,000** | **191,200** |

| Cynnig 28 Mawrth 2017 | Cyflenwad arfaethedig ymrwymedig | Cyfaint ychwanegol | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 7,700 o dunelli | 41,875 o dunelli | 49,575 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 49,500$m^3$obs | 141,000m3 obs | 190,500m3 obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **57,200** | **182,875** | **240,075** |

2.36 Yn ogystal â'r newid yng nghyfanswm cyfaint y pren a gynigiwyd gan CNC, fel y dengys Tabl 3, bu newid sylweddol yn y gymhareb rhwng pren ymyl ffordd a choed sy'n sefyll, a olygai fod y Gweithredwr Melin Lifio wedi cael cynnig cyfaint llawer mwy o bren ymyl ffordd na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol ar 22 Mawrth 2017.

2.37 Mae Pennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr bod y cyfaint a gynigiwyd wedi cael ei gynyddu am fod y Gweithredwr Melin Lifio wedi mynegi pryderon mawr bod y lefel o gyflenwad a gynigiwyd yn wreiddiol, yn enwedig o ran boncyffion ymyl ffordd, yn rhy isel i gynnal y nifer bresennol o sifftiau a oedd yn cael eu cynnal yn y felin lifio. Hefyd, erbyn 28 Mawrth 2017 roedd CNC wedi sylweddoli, pe bai ei gyflenwad o bren ymyl ffordd i'r Gweithredwr Melin Lifio yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017, y byddai angen iddo ailfarchnata'r cyfaint cyfatebol o foncyffion yn gyflym iawn er mwyn cyflawni ei raglen werthiannau gyffredinol. Byddai hyn wedi bod yn anodd iawn am fod CNC yn cyflwyno system

TGCh marchnata pren newydd ar 1 Ebrill 2017 a fyddai wedi atal CNC rhag sefydlu a thendro contractau'n gyflym.

2.38 Fodd bynnag, nid oes gan CNC unrhyw ddogfennaeth gyfoes sy'n nodi pam y cynyddwyd y cynnig, ac nid yw nodiadau'r cyfarfod ar 28 Mawrth 2017 yn cofnodi'r sylw a briodolwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio ym mharagraff 2.37. At hynny, nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw dystiolaeth i'm harchwilwyr bod y cynnydd yn y cyfaint a gynigiwyd wedi'i nodi'n fewnol.

2.39 Digwyddodd y cynnydd yn y cynnig o bren ymyl ffordd fel rhan o'r trefniadau trosiannol yn fuan ar ôl i CNC gyhoeddi yn ei Gynllun Marchnata Pren ar gyfer 2017-2022 (Ionawr 2017) ei fwriad i leihau ei waith cynhyrchu uniongyrchol (sy'n arwain at werthiannau ymyl ffordd) o 380,000$m^3$ obs i 280,000$m^3$ obs yn 2017-18.

2.40 Mae'r cynnig a wnaed i'r Gweithredwr Melin Lifio yn y cyfarfod ar 28 Mawrth 2017 yn cyfateb i 29.6% o gyflenwad pren arfaethedig CNC i'r farchnad yn ystod 2017-18. Roedd hefyd yn cyfateb i 74% o gyfaint blynyddol pren ymyl ffordd a 106% o'r coed sy'n sefyll a gontractiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio o dan y contractau hirdymor a oedd yn cael eu terfynu.

2.41 Ar 29 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd yn nodi ei ddealltwriaeth o'r cyfarfod â'r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2017. Mae'r e-bost yn awgrymu bod y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro ar ddeall y byddai'r trefniadau trosiannol yn 'cau'r [contractau hirdymor] yn raddol ac y 'bydd hyn yn cynnwys addasu'r pris am bren llarwydd ar rai o'r contractau sydd i'w hestyn'. Mae'r e-bost yn cyfeirio at y ffaith bod angen cytuno ar Femorandwm Cytundeb newydd â'r Gweithredwr Melin Lifio ac at gais i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ddrafftio'r ddogfen hon.

## Cyflwyno contractwr ychwanegol

2.42 Ar fore 31 Mawrth 2017, anfonodd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd e-bost at Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC ynglŷn â'r trefniadau trosiannol arfaethedig. Yn yr e-bost hwn nododd:

- y byddai'n hysbysu'r Gweithredwr Melin Lifio a'r Cwmni Cynaeafu Pren (a oedd wedi cael ei is-gontractio gan y Gweithredwr Melin Lifio i gynaeafu coed sy'n sefyll o dan y contractau hirdymor) y diwrnod hwnnw y câi'r contractau hirdymor eu terfynu ar ddiwedd y dydd;
- y byddai'r trefniadau presennol yn trosglwyddo i gontractau newydd ac y byddai contractau newydd hefyd yn cael eu llunio ar gyfer y cyfaint newydd yn y cynllun trosiannol; a
- chynnig y câi cytundebau ymyl ffordd newydd eu sefydlu bob chwarter.

2.43 Yn ystod prynhawn 31 Mawrth 2017, cafodd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd e-bost gan y Cwmni Cynaeafu Pren. Noda'r e-bost 'a allwch gysylltu â'r [Gweithredwr Melin Lifio] a gofyn iddo gysylltu â ni oherwydd ymddengys ei fod yn gwneud ymdrech fawr i'n hosgoi ar hyn o bryd. Rydym mewn sefyllfa enbyd. Gwnaethom gyd-drafod â'r [Gweithredwr Melin Lifio] yn ddidwyll i gefnogi'r buddsoddiad yn [ei safle], gwyddom oll beth sydd wedi digwydd yno. Rydym wedi gwneud popeth y gofynnwyd i ni ei wneud ac wedi cael ein gadael yn ddiymgeledd i bob diben. Ni wn sut y bydd [y Gweithredwr Melin Lifio] yn ymddwyn yn y dyfodol ond mae gennyf amheuon y bydd yn ceisio gwneud y gwaith cynaeafu'n fewnol unwaith eto oni allwch roi rhyw gyd-destun yn eich trefniadau cytundebol newydd i ddiogelu ein buddiannau. Mae'r [contract hirdymor] yn nodi mai ni yw'r asiantau cynaeafu enwebedig; gan mai chi sy'n rheoli'r trefniant hwn yn llwyr onid oes modd i ni gael cynnig yr un trefniant yn y contractau [newydd]? A rhaid ychwanegu hefyd bod y llinell yn y contract sy'n gymwys i'r cyfaint sy'n weddill .... Ffordd arall o weithredu fyddai, yn syml, ailaseinio ein contract gwreiddiol i ni gan mai sylfaen wreiddiol y trefniant oedd cefnogi'r buddsoddiad. A allwn drefnu galwad gynadledda ddydd Llun i drafod hyn?'

2.44 Ymatebodd Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd drwy nodi bod CNC ar gael ar gyfer galwad gynadledda ar 3 Ebrill 2017 ac y byddai'n rhybuddio'r Gweithredwr Melin Lifio bod angen ffonio'r Cwmni Cynaeafu Pren.

2.45 Yn ddiweddarach yn ystod y prynhawn hwnnw, anfonodd y Gweithredwr Melin Lifio e-bost at Bennaeth Marchnata a Phennaeth Cynaeafu CNC ar y pryd yn diolch iddynt am eu galwad yn gynharach y diwrnod hwnnw ac yn cadarnhau'r prisiau y cytunodd i'w talu am brynu boncyffion a bariau sbriws a llarwydd.

2.46 Anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at y Gweithredwr Melin Lifio 20 munud yn ddiweddarach yn atodi llythyr yn ei hysbysu y byddai'r contractau hirdymor yn dod i ben y diwrnod hwnnw ac y byddai darpariaethau ôl-derfynu'r contractau hirdymor yn dod i rym. Hefyd, cynigiwyd y dylai CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio gyd-drafod yn ddidwyll i ymrwymo i drefniadau newydd sy'n adlewyrchu'r telerau i gytuno arnynt rhwng y partïon, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) fatrics atodedig ac fel arall gyda'r bwriad o ddirwyn gweithrediadau i ben yn drefnus. Roedd y llythyr a anfonwyd at y Gweithredwr Melin Lifio wedi cael ei baratoi gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd gyda mewnbwn gan gynghorwyr cyfreithiol CNC.

2.47 Gofynnwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio gadarnhau drwy lofnodi copi o'r llythyr ei fod yn cytuno i'r telerau a nodwyd yn y llythyr hwnnw. Noda e-bost CNC 'er mwyn bod yn glir, bydd ffigurau'r contractau presennol yn dod i ben heddiw heb unrhyw awdurdodiad pellach i godi pren yn erbyn ffigurau'r contractau. Ar ôl derbyn eich cadarnhad, byddwn yn pennu ffigurau contract newydd gyda'r prisiau diwygiedig am bren llarwydd i gwmpasu'r cyfnod dirwyn i ben'. Mae'r atodlen gyflenwi a atodir yn cofnodi'r bwriad i gynnig 41,875 tunnell o bren ymyl ffordd a 141,000$m^3$ o goed sy'n sefyll, sef cyfanswm o 182,875 o unedau cyflenwi. Er bod yr atodlen yn gyson â nodiadau'r cyfarfod rhwng CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2017 (paragraffau 2.32 i 2.35), nid yw'n cynnwys y 'cyfaint cyflenwad arfaethedig'

ychwanegol o 57,200 o unedau a gynigiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio yn yr e-bost a anfonwyd gan Bennaeth Marchnata CNC at y Gweithredwr Melin Lifio ar 22 Mawrth 2017 (gweler tabl 3).

2.48 Ar fore 3 Ebrill 2017, anfonodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC e-bost at y Gweithredwr Melin Lifio. Roedd yr e-bost mewn ymateb i alwad ffôn a dderbyniwyd gan y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol oddi wrth y Gweithredwr Melin Lifio ar 31 Mawrth 2017 pan oedd y Gweithredwr Melin Lifio wedi gofyn am gynnydd yn y cyfeintiau arfaethedig o bren. Nododd yr e-bost gan Bennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC 'rwyf wedi adolygu gyda [Pennaeth Marchnata CNC ar y pryd] yr atodlen gyflenwi ac ni fyddai'n briodol ychwanegu cyfaint ychwanegol, gan gynnwys sbriws a theimlwn fod y proffil yn rhesymol ac yn gymesur ........ Y rheswm dros yr atodlen gyflenwi yw nid dim ond i'ch galluogi [chi] i ymaddasu at derfynu'r [contractau hirdymor], ond ei gwneud yn bosibl i'r gadwyn gyflenwi gynllunio ac ymaddasu. Felly rydym yn disgwyl [i chi] ymgysylltu â'r contractwyr yr effeithir arnynt a rhoi o leiaf yr un lefel o ddiogelwch iddynt ag a ddarperir gan yr atodlen gyflenwi'.

2.49 Yr un bore, ysgrifennodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Lywodraeth Cymru yn nodi bod y contractau hirdymor â'r Gweithredwr Melin Lifio wedi cael eu terfynu ar 31 Mawrth 2017 a bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi 'dewis peidio â herio hyn ac, yn lle hynny, wedi dechrau trafodaethau gyda ni ynglŷn â sut i ddirwyn y contractau i ben. Y cyngor cyfreithiol a roddwyd i ni oedd y dylid defnyddio darpariaethau ôl-derfynu'r contractau a derbyn y byddai'r contractau yn dod i ben ar 31 Mawrth'. Roedd y datganiad hwn yn anghywir. Roedd cynghorwyr cyfreithiol CNC wedi cynghori na ellid defnyddio darpariaethau ôl-derfynu'r contractau hirdymor i gynnig cyfaint i'r Gweithredwr Melin Lifio yn y dyfodol fel rhan o'r trefniadau dirwyn i ben. Roedd yr e-bost at Lywodraeth Cymru yn cynnwys atodiadau, gan gynnwys y llythyr ôl-derfynu ac atodlen yn dangos y pren roedd CNC yn bwriadu ei werthu i'r Gweithredwr Melin Lifio o dan y trefniadau trosiannol (Tabl 4).

Tabl 4: Crynodeb CNC o'r cyfaint trosiannol o bren a gynigiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio fel yr hysbyswyd Llywodraeth Cymru ohono ar 3 Ebrill 2017.

| | **Cynnig Ch1 Ebrill – Meh 2017** | **Cynnig Ch2 Gorff – Medi 2017** | **Cynnig Ch3 Hyd – Rhag 2017** | **Cynnig Ch4 Ion – Maw 2018** | **Cyfanswm i'w Gynnig 2017/2018** |
|---|---|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 16,750 o dunelli | 12,563 o dunelli | 8367 o dunelli | 4,189 o dunelli | 41,877 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 78,000 $m^3$ obs | 51,000 $m^3$ obs | 12,000 $m^3$ obs | | 141,000 $m^3$ obs |
| **Cyfanswm yr unedau cyflenwi** | **94,750** | **63,563** | **20,367** | | **182,877** |

2.50 Er bod yr atodlen a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn nodi bod 182,877 o unedau cyflenwi wedi cael eu cynnig i'r Gweithredwr Melin Lifio, fel y dengys Tabl 3, cynigiwyd 240,075 o unedau cyflenwi i'r Gweithredwr Melin Lifio. Roedd y cyfaint a nodwyd yn y wybodaeth a roddwyd i Lywodraeth Cymru wedi'i danddatgan o 30.6% am nad oedd yn cynnwys y cyfaint cyflenwad arfaethedig a oedd hefyd wedi cael ei gynnig o dan y cynnig ar gyfer trefniadau trosiannol. Mae CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod yn derbyn 'y dylai'r cyfaint cyfan fod wedi'i nodi yn yr atodlen'. Ni nododd yr e-bost at Lywodraeth Cymru fod CNC, yn gynharach y bore hwnnw, wedi cytuno i gontractio â'r Cwmni Cynaeafu Pren yn drosiannol ar gyfer coed sy'n sefyll (gweler paragraffau 2.43 a 2.54).

2.51 Yn ddiweddarach y bore hwnnw, anfonodd y Gweithredwr Melin Lifio ei lythyr llofnodedig at CNC yn cytuno i 'gyd-drafod yn ddidwyll' a chopi llofnodedig o'r atodlen gyflenwi roedd CNC wedi'i hanfon ato ar 31 Mawrth 2017. Ar ôl derbyn yr e-bost hwn, ysgrifennodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Brif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol CNC ar y pryd yn nodi bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi cytuno i'r trefniadau ôl-derfynu ar gyfer y contractau hirdymor. Ysgrifennodd hefyd at Lywodraeth Cymru yn ei hysbysu bod y Gweithredwr Melin Lifio wedi cytuno i ddirwyn y contractau hirdymor i ben a bod y 'rheswm dros ddileu'r cyflenwad yn raddol dros gyfnod o fisoedd nid yn unig yn galluogi [y Gweithredwr Melin Lifio] i ymaddasu at derfynu'r contractau hirdymor hyn, ond ei gwneud yn bosibl i'r gadwyn gyflenwi gynllunio ac addasu ar gyfer terfynu'r contractau hyn. Bydd hefyd yn osgoi effaith andwyol ar incwm pren CNC a fyddai'n ganlyniad anochel i'r tarfu sy'n gysylltiedig â therfynu'r holl gyflenwad yn gyfan gwbl'.

2.52 Ymatebodd Prif Weithredwr CNC ar y pryd i'r Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro yn nodi 'yr ymddengys bod y broses derfynu wedi mynd rhagddi'n ddidrafferth iawn ac rwy'n falch ein bod yn gallu dod i gytundeb cyn diwedd mis Mawrth'. Aeth yn ei flaen i nodi 'fodd bynnag yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mae'n debygol y bydd yn pwyso arnaf i ddweud pam y dewiswyd y cyfeintiau hyn a sut maent yn cymharu â'r contractau blaenorol. Yn benodol, nodaf fod [cyfaint y contract ar gyfer un ardal goedwig] yn uwch na'r cyfaint yn y contract gwreiddiol. Byddwn hefyd yn ddiolchgar am esboniad o'r gwahaniaethau mewn prisiau y mae'r [Pennaeth Marchnata] yn cyfeirio atynt. A allwn gael nodyn briffio i ymdrin â'r pwyntiau hyn?'

2.53 Anfonodd y Pennaeth Marchnata ar y pryd e-bost at y Prif Weithredwr ar y pryd gydag ymatebion i'w ymholiadau. Wrth ateb y cwestiwn ynghylch 'pam y dewiswyd y cyfeintiau hyn', nododd y Pennaeth Marchnata, 'defnyddiwyd dull colli ac ennill i wneud i'r cyfaint cyfan gydweddu â chymhareb cyfran y buddsoddiad a wnaed gan [y Gweithredwr Melin Lifio], dim ond 12,000 allan o 30,000 (40%) a gynigiwyd iddo ar y contract sbriws sy'n sefyll ar gyfer y canolbarth, er enghraifft'. Nododd y Pennaeth Marchnata hefyd y cynnydd (o gymharu â'r contractau hirdymor) ym mhrisiau gwerthu pren llarwydd a negodwyd yn y cyfarfod ar 28 Mawrth 2017.

2.54 Ychydig cyn 5pm ar 3 Ebrill 2017, anfonodd y Pennaeth Marchnata e-bost at y Cwmni Cynaeafu Pren yn cadarnhau bod y canlynol wedi cael ei drafod mewn galwad ffôn y bore hwnnw ac yn nodi'r canlynol:

- Roedd y contractau hirdymor wedi cael eu terfynu ganol nos 31 Mawrth 2017.
- Ni fyddai 'ymgodiad yn y pren' nes bod contractau newydd wedi cael eu rhoi ar waith â'r [Cwmni Cynaeafu Pren].
- Byddai 'tybiaeth' y byddai'r boncyffion a'r bariau a oedd yn addas ar gyfer y Gweithredwr Melin Lifio o'r safleoedd gwaith presennol 'a'r rhai a gynigiwyd yn y trefniant camu allan yn cael eu gwerthu i'r Gweithredwr Melin Lifio.
- Byddai pob llannerch newydd yn cael ei gwerthu yn ôl y prisiau newydd am bren llarwydd y cytunwyd arnynt â'r [Gweithredwr Melin Lifio] ar 31 Mawrth 2017.
- Byddai pob contract a oedd wedi'i weithio'n rhannol yn cael ei ailddyfarnu i'r [Cwmni Cynaeafu Pren] yn uniongyrchol o dan y contractau newydd.
- Byddai pob llannerch newydd hefyd yn cael ei dyfarnu i'r [Cwmni Cynaeafu Pren] yn uniongyrchol o dan y contractau newydd.
- Roedd yn synhwyrol cytuno ar gymal cytundebol a nododd bod [y Gweithredwr Melin Lifio] yn cael y boncyffion a'r bariau addas.
- 'Y cyfaint i'w gynnig eleni yw 42,000$m^3$ obs o dan drefniant Llanymddyfri a [72,000$m^3$ obs] o dan drefniant [Coed y Cymoedd] ….. Roedd CNC yn bwriadu contractio'r holl gyfeintiau erbyn diwedd [Chwarter 3].

2.55 Ar 6 Ebrill 2017, anfonodd y Cwmni Cynaeafu Pren e-bost at Bennaeth Marchnata CNC yn gofyn am i'r contractau newydd gael eu llunio'n gynt ac yn gofyn am gadarnhad 'y bydd CNC yn negodi'r holl gyfeintiau sy'n weddill ar y [cytundebau hirdymor ar gyfer coed llarwydd sy'n sefyll] â ni? I bob diben, nid oes dim yn y cytundeb rhwng CNC/[y Gweithredwr Melin Lifio] sy'n rhoi hawl iddo negodi'r cyfaint sy'n weddill yn y dyfodol. Dim ond yr hawl i gael y boncyffion a'r bariau sy'n ymwneud â'r cnydau sy'n sefyll sydd ganddo.'

2.56 Ymatebodd Pennaeth Marchnata CNC yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, gan nodi: 'Y cytundeb yw y byddwn yn sicrhau bod y cyfeintiau a nodwyd gennym ar gael. Mae wedi cytuno mai chi fydd yr asiantau i gynaeafu'r cyfaint sy'n weddill o hyd? Ni all brynu'r pren yn uniongyrchol felly chi fydd yn cael y contractau yn niffyg unrhyw drefniant arall. O'm rhan i, bydd yn cael mynediad at y coed llarwydd a sbriws ar y safleoedd, ni chafodd mân-rywogaethau eu trafod ac ni chafodd prisiau eu haddasu, felly byddai'n well pe baent yn cael eu marchnata'n lleol, gwerth gorau os bydd yn barod i dalu'r pris hwnnw, gorau oll. Nid yw'r [Gweithredwr Melin Lifio] erioed wedi cyd-drafod y lleiniau unigol yn y gorffennol felly pam byddai am wneud hynny nawr? Byddwn yn disgwyl y câi'r matrics ar gyfer cyfraddau cynaeafu eu defnyddio o hyd. Mae ein rheolwyr contractau yn gweithio ar hyn mor fuan â phosibl ond mae'n waith ychwanegol ac mae'n rhaid dod o hyd i amser i'w wneud, mae ganddynt derfynau amser gwerthu eraill i'w bodloni hefyd. Os na wnânt hynny ni fydd unrhyw gynigion ym mis Mehefin'.

# Rhan 3

## 3. Dyfarnu contractau trosiannol

### Awdurdodi Contractau

3.1. Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, ymrwymodd CNC i 59 o gontractau trosiannol.

3.2. Roedd 11 o'r contractau hyn yn ymwneud â gwerthu pren ymyl ffordd i'r Gweithredwr Melin Lifio, roedd 11 yn ymwneud â gwerthu coed sy'n sefyll i gwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio ac roedd 38 yn ymwneud â gwerthu coed sy'n sefyll i'r Cwmni Cynaeafu Pren. Yna, tynnodd CNC dri o'r contractau a ddyfarnwyd i'r Cwmni Cynaeafu Pren yn ôl ac mae wedi dweud wrth fy archwilwyr mai oedi ar ran y Cwmni Cynaeafu Pren cyn dechrau gweithrediadau cynaeafu oedd y rheswm dros hyn.

3.3. Mae Bwrdd CNC wedi mabwysiadu Cynllun Dirprwyo Ariannol o'r enw 'Rheoli Ein Harian'. O dan y cynllun hwn mae pob un o weithgareddau ariannol CNC wedi cael ei ddirprwyo i lefel awdurdod neu ddeiliad swydd penodol y cytunwyd arni/arno. Mae'n caniatáu i'r Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar faterion ariannol penodol.

3.4. Drwy'r Cynllun Dirprwyo mae Bwrdd CNC yn dirprwyo ei swyddogaeth o ran ymrwymo i gontractau i aelodau unigol o staff ac mae'n ffordd o reoli risg a gonestrwydd ariannol.

3.5. Mae Tabl 5 yn amlinellu'r deiliaid swydd yn CNC sydd wedi cael eu nodi yn y Cynllun Dirprwyo fel rhai sydd wedi cael awdurdod i ymrwymo i gontractau gwerthu pren ar ran CNC.

Tabl 5: Awdurdod Dirprwyedig i gymeradwyo gwerthiannau pren: Rheoli Ein Harian

| Terfyn | Corff neu Berson(au) Awdurdodedig |
|---|---|
| £250,000 a throsodd | Pennaeth Menter |
| Hyd at £250,000 | Pennaeth Marchnata neu Bennaeth Cynaeafu |
| Hyd at £100,000 | Rheolwr Gwerthiannau'r Gogledd neu Reolwr Gwerthiannau'r De neu'r Rheolwr Systemau Busnes Gweithrediadau |

3.6. Yn ystod yr archwiliad, canfu fy archwilwyr nad oedd 13 o'r contractau trosiannol wedi cael eu cymeradwyo yn unol â Chynllun Dirprwyo CNC, ac mewn pump o'r achosion hyn, nid oedd CNC yn gallu dangos bod y contractau wedi cael eu hawdurdodi gan unrhyw un o swyddogion CNC. Mae Tabl 6 yn rhoi crynodeb o awdurdodiadau'r contractau.

Tabl 6: Crynodeb o awdurdodiadau'r contractau yn erbyn gofynion Rheoli ein Harian

| Contractwr | Nifer y contractau | Wedi'i awdurdodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol | Gwerth y contract uwchlaw terfyn dirprwyo'r swyddog awdurdodi | Heb ei awdurdodi gan CNC |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredwr Melin Lifio | 11 | 5 | 6 | 0 |
| Cwmni Cynaeafu Pren | 38 | 34 | 1 | 3 |
| Cwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio | 10 | 7 | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **59** | **46** | **8** | **5** |

3.7. Amcangyfrifwyd bod y contractau heb eu hawdurdodi'n briodol yn werth £2,752,248 a chafodd CNC incwm o £1,868,773 mewn perthynas â'r contractau hyn yn 2017-18.

## Telerau a Phrisiau Contractau

3.8. Roedd y contractau trosiannol yr ymrwymodd CNC iddynt yn ystod 2017-18 yn rhai cyffredinol ar gyfer gwerthiannau pren. Fodd bynnag, ym mhob contract â'r Cwmni Cynaeafu Pren mewnosododd CNC deler cytundebol ansafonol yn nodi, 'bydd y prynwr yn y lle cyntaf yn cynnig yr holl foncyffion llarwydd, bariau llarwydd a baria sbriws sy'n deillio o'r contract hwn i [y Gweithredwr Melin Lifio]. Gellir marchnata pob rhywogaeth/cynnyrch arall i sicrhau gwerth gorau. Bydd yn rhaid hysbysu CNC o'r holl brisiau wrth y gât a sicrhawyd'. Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC wrth fy archwilwyr fod cynnwys y teler cytundebol ansafonol yn beth 'eithriadol' ac nad oedd unrhyw un o gontractau gwerthu pren erail CNC wedi cynnwys teler tebyg.

3.9. Nid yw'r contractau yn pennu'r pris gros i'w dalu gan y Gweithredwr Melin Lifio i brynu boncyffion llarwydd, bariau llarwydd a bariau sbriws a gynaeafwyd gan y Cwmni Cynaeafu Pren.

3.10. Mae nodiadau'r cyfarfod rhwng swyddogion CNC a'r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2017 yn nodi bod y Gweithredwr Melin Lifio 'wedi cytuno i ystyried cynyddu pris y deunydd llarwydd sy'n mynd i'w felin lifio [yng Nghymru]; cyflwynodd CNC gynnig prisio'. Nid yw CNC wedi gallu rhoi copi o unrhyw gynnig prisio a gyflwynwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio i'm harchwilwyr. Fodd bynnag, fel y'i nodir ym mharagraff 2.45, ar 31 Mawrth 2017 anfonodd cynrychiolydd y Gweithredwr

Melin Lifio e-bost at Bennaeth Marchnata a Phennaeth Cynaeafu CNC ar y pryd, 'i gadarnhau'r prisiau a drafodwyd'. Nodwyd y byddai prisiau sbriws yn unol â dull y [contract hirdymor] a phrisiau pren llarwydd 'ar gyfer y 12 mis nesaf'. Roedd y prisiau a nodwyd yn yr e-bost fel a ganlyn:

**Prisiau sbriws yn unol â dull y contract:**
Boncyff £46.05 wrth ymyl ffordd[2]
Bar £42.94 wrth ymyl ffordd

**Prisiau pren llarwydd ar gyfer y 12 mis nesaf:**
Boncyff £46.46 wedi'i ddosbarthu[3]
Bar £38.50 wedi'i ddosbarthu.

3.11. Er nad yw wedi'i nodi'n benodol yn yr e-bost, mae'n amlwg o'r contractau yr ymrwymwyd iddynt fod y prisiau uchod yn cyfeirio at bris y dunnell.

3.12. Mae e-bost mewnol oddi wrth y Pennaeth Marchnata ar y pryd at y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro ar 3 Ebrill 2017 yn nodi 'bod y cynnydd ym mhrisiau pren llarwydd fel a ganlyn, mae boncyffion yn cynyddu £4.46 y dunnell, mae bariau yn cynyddu £6.50 y dunnell'. Roedd y cynnydd yn ymwneud â'r prisiau am bren llarwydd a oedd wedi bod yn gymwys yn y contractau hirdymor a gafodd eu terfynu.

3.13. Ar 21 Ebrill, anfonodd Rheolwr Gwerthiannau Pren y De CNC e-bost at aelodau eraill o dîm gwerthu pren CNC ar ôl trafodaeth a gynhaliwyd ganddi gyda chynrychiolydd y Gweithredwr Melin Lifio. Yn yr e-bost nododd y prisiau roedd yn ystyried eu bod wedi'u cytuno mewn perthynas â phrisiau'r contractau trosiannol. Roedd y prisiau a nodwyd yn gyson â'r rhai a nodwyd ym mharagraff 3.10. Fodd bynnag, mae'r e-bost yn darparu ychydig o wybodaeth ychwanegol:

- cytunwyd ar bris o £11 y dunnell o ran y gyfradd cludo i'w chymhwyso at bren llarwydd ac felly y pris ymyl ffordd am foncyffion llarwydd y dunnell oedd £35.46 (£46.46 - £11.00) a bariau llarwydd £27.50 (£38.50 - £11.00); a
- chytunwyd ar bris o £8.50 y dunnell o ran y gyfradd cludo i'w chymhwyso at bren sbriws ac felly y pris wedi'i ddosbarthu am foncyffion sbriws oedd £54.55 y dunnell (£46.05 + £8.50) a £51.44 am fariau sbriws (£42.94 + £8.50).

[2] Pris ymyl ffordd yw'r pris y bydd y prynwr yn ei dalu os bydd yn prynu wrth ymyl y ffordd, h.y. y pris gwerthu gros llai'r costau cludo a delir gan y prynwr yw'r pris ymyl ffordd.

[3] Prisiau wedi'u dosbarthu yw'r prisiau y bydd y prynwr yn eu talu os caiff y cynnyrch ei ddosbarthu i'w safle. Fodd bynnag, os oes rhaid i'r prynwr gludo'r cynnyrch i'w safle, caiff y pris wedi'i ddosbarthu ei wrthbwyso gan gostau cludo.

3.14. Dywedodd CNC wrth fy archwilwyr fod y cyfraddau uchod wedi cael eu cymhwyso at bob un o'r 59 o gontractau trosiannol, p'un a oedd y contractau hynny yn ymwneud â'r Gweithredwr Melin Lifio, cwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio neu'r Cwmni Cynaeafu Pren.

3.15. Fodd bynnag, canfu fy archwilwyr, er i'r prisiau a nodwyd uchod gael eu cymhwyso at y contractau ymyl ffordd y cytunwyd arnynt â'r Gweithredwr Melin Lifio, na chawsant eu cymhwyso'n llawn at y contractau a luniwyd â chwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio na'r Cwmni Cynaeafu Pren.

3.16. Canfu fy archwilwyr fod y symiau a nodwyd yn y cyfraddau cludo ar gyfer contractau gwerthu coed sy'n sefyll â chwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio a'r Cwmni Cynaeafu Pren yn uwch na'r cyfraddau a nodwyd yn yr e-bost dyddiedig 21 Ebrill 2017 yn y rhan fwyaf o achosion. O ganlyniad, cafodd CNC lai o incwm nag y byddai wedi'i gael pe bai'r cyfraddau a nodwyd yn yr e-bost dyddiedig 21 Ebrill 2017 wedi cael eu cymhwyso.

3.17. Canfu fy archwilwyr hefyd fod 17 o'r contractau â'r Cwmni Cynaeafu Pren (a ddosbarthwyd yn gontractau 'cyflenwad arfaethedig' gan CNC) wedi cael eu prisio ar yr un cyfraddau â'r rhai yn y contractau hirdymor a gafodd eu terfynu. Roedd CNC wedi cydnabod ym mis Ionawr 2017 fod y prisiau yn y contractau hirdymor yn is na'r cyfraddau ar y farchnad (gweler paragraff 2.2). Fel y'i nodir yn Nhabl 7, pe bai'r cyfraddau a nodwyd yn yr e-byst dyddiedig 31 Mawrth 2017 a 21 Ebrill 2017 wedi cael eu cymhwyso'n llawn at bob contract trosiannol, byddai CNC wedi cael £186,232 yn fwy o incwm yn ystod 2017-18 na'r hyn a gafodd mewn gwirionedd.

Tabl 7: Y gwahaniaeth yn incwm derbyniadwy CNC yn 2017-18 o ganlyniad i beidio â chymhwyso'r prisiau a nodwyd ar 31 Mawrth 2017 a 21 Ebrill 2017

| Gweithredwr Melin Lifio: Contractau ymyl ffordd | £0 |
|---|---:|
| Cwmni cynaeafu pren y Gweithredwr Melin Lifio: Contractau Coed sy'n Sefyll | -£58,898 |
| Cwmni Cynaeafu Pren: Contractau Coed sy'n Sefyll, Ddim yn Gyflenwad Arfaethedig | -£110,494 |
| Cwmni Cynaeafu Pren: Contractau Coed sy'n Sefyll, Ddim yn Gyflenwad Arfaethedig | -£16,840 |
| **Cyfanswm** | **-£186,232** |

3.18. Nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw ddogfennaeth gyfoes i'm harchwilwyr sy'n nodi ar ba sail y pennwyd y prisiau yn y contractau hirdymor na'r camau a gymerodd i sicrhau bod y prisiau yn unol â'r cyfraddau ar y farchnad. Mae'r ddogfennaeth gyfoes, sydd ar glawr, yn awgrymu i'r Gweithredwr Melin Lifio hysbysu CNC o'r prisiau (gweler paragraffau 2.45 a 3.10).

## Cyfeintiau contractau

3.19. Nodir y cyfeintiau o bren y contractiwyd i'w gwerthu o dan y trefniadau trosiannol, a sut roedd hyn yn cymharu â'r symiau a gynigiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio ar 22 Mawrth 2017 a 28 Mawrth 2018 yn Nhabl 8.

Tabl 8: Newidiadau i gyfaint y pren a gynigiwyd o dan y trefniadau trosiannol

| Cynnig 22 Mawrth 2017 | Cyflenwad arfaethedig ymrwymedig | Cyfaint ychwanegol | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 7,700 o dunelli | 5,000 o dunelli | 12,700 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 49,500m$^3$ obs | 129,000m$^3$ obs | 178,500m$^3$ obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **57,200** | **134,000** | **191,200** |

| Cynnig 28 Mawrth 2017 | Cyflenwad arfaethedig ymrwymedig | Cyfaint ychwanegol | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 7,700 o dunelli | 41,875 o dunelli | 49,575 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 49,500m$^3$ obs | 141,000m$^3$ obs | 190,500m$^3$ obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **57,200** | **182,875** | **240,075** |

| Cyfeintiau cytundebol a ddyfarnwyd 2017-18 | Gweithredwr Melin Lifio a'i gwmni cynaeafu pren | Cwmni Cynaeafu Pren | Cyfanswm y cyfaint |
|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 65,377 o dunelli | 0 tunnell | 65,377 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 43,321m$^3$ obs | 210,287m$^3$ obs | 253,608m$^3$ obs |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **108,698** | **264,991** | **318,985** |

3.20. Fel y dengys Tabl 8, roedd cyfaint y pren y contractiwyd i'w werthu i'r Gweithredwr Melin Lifio a'i gwmni cynaeafu pren a'r Cwmni Cynaeafu Pren o dan y trefniadau trosiannol yn gwneud cyfanswm o 318,985 o unedau cyflenwi, sef 72% yn uwch na'r cyfaint mewn m$^3$ obs a gynigiwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio ar 22 Mawrth 2017 a 33% yn uwch na'r hyn a gyd-drafodwyd â'r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth 2017.

3.21. Mae CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr nad oedd y cyfeintiau a gynhwyswyd yn y contractau trosiannol a ddyfarnwyd yn 2017-18 yn cyfeirio at ‘y cyfeintiau y bwriadwyd i’w cyflenwi’ a bod y cyfeintiau a gontractiwyd wedi cael eu chwyddo am fod y cyfaint wedi’i gontractio yn y contractau cyflenwad arfaethedig yn cynnwys swm sylweddol o bren a gafodd ei gynaeafu cyn 1 Ebrill 2017. Nid wyf yn siŵr pam yr ymrwymodd CNC i gontractau newydd i werthu pren a oedd eisoes wedi cael ei gynaeafu a’i werthu o dan gontractau a oedd wedi cael eu terfynu. Mae CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr, er ei fod yn derbyn y dylai fod ond wedi cynnwys ‘cyfaint yn weddill’ yn y contractau, nad oedd erioed wedi bwriadu rhoi cyfeintiau uwch na’r rhai y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod â’r Gweithredwr Melin Lifio ar 28 Mawrth, a pharhaodd i weithio yn ôl y cyfeintiau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod hwnnw.

3.22. Roedd y cyfaint a gontactiwyd â’r Gweithredwr Melin Lifio a’i gwmni cynaeafu pren a’r Cwmni Cynaeafu Pren yn gwneud cyfanswm o 39.4% o gyfanswm cyfaint y pren y dywedodd CNC yn ei Gynllun Marchnata Pren y byddai’n sicrhau ei fod ar gael i bob prynwr yn 2017-18. Roedd y cyfaint a gontractiwyd yn cyfrif am 97.6% o gyfaint blynyddol gwerthiannau ymyl ffordd a 141% o gyfaint blynyddol gwerthiannau coed sy’n sefyll yn y contractau hirdymor a gafodd eu terfynu.

3.23. Ar 4 Mai 2017, anfonodd Prif Weithredwr CNC ar y pryd e-bost a Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â’r ‘trefniadau trosiannol’. Un o’r darnau o wybodaeth y gofynnodd amdano oedd ‘cysoni rhwng yr hyn y cytunwyd arno yn y contractau gwreddiol a’r hyn y bydd y cwmni yn ei gael mewn gwirionedd – o ran cyfaint a gwerth’.

3.24. Ar 11 Mai 2017, ymatebodd y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro drwy e-bost i’r Prif Weithredwr ar y pryd yn nodi sail resymegol dros ymrwymo i’r trefniadau trosiannol. Noda’r e-bost: ‘Cafodd y penderfyniad i ddirwyn y cyflenwadau i lawr, fel y’i dangosir yn y cyfeintiau dileu’n raddol, ei wneud er mwyn osgoi niweidio’r gadwyn gyflenwi pren ac osgoi effaith andwyol ar incwm pren CNC yn 2017-18. Byddai terfyn sydyn ar y cyflenwad ar 31 Mawrth wedi cael effaith enfawr, gyda gweithrediadau cynaeafu yn dod i ben a chontractwyr yn colli gwaith er nad oes unrhyw fai arnynt hwy. Byddai rhai contractwyr cynaeafu a chludwyr, yn anochel, wedi mynd i’r wal. Byddai’r amser paratoi cyn ailfarchnata’r cyfaint wedi arwain at ostyngiad mawr yn incwm pren CNC, y byddai wedi bod yn anodd iawn ei unioni gan mai’r gwanwyn yw’r adeg o’r flwyddyn pan welwn y galw mwyaf am bren’. Atodir taenlen i’r e-bost yr haerwyd ei bod yn rhoi cyfrif am gyfaint y pren i’w ddarparu i’w gwerthu o dan y trefniadau trosiannol, a chanran cyfaint gwreiddiol y contractau hirdymor gwreiddiol a fyddai wedi’i gyflenwi i’r Gweithredwr Melin Lifio erbyn diwedd y trefniadau trosiannol. Nid oedd yr e-bost na’r daenlen yn cyfeirio at ymwneud y Cwmni Cynaeafu Pren â’r trefniadau trosiannol.

3.25. Nodir crynodeb o’r wybodaeth a ddarparwyd i’r Prif Weithredwr ar y pryd yn Nhabl 9.

Tabl 9: Cyfaint y pren a gynigiwyd o dan y trefniadau trosiannol yn ôl yr e-bost gan Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Brif Weithredwr CNC ar y pryd dyddiedig 11 Mai 2017.

| | Cyfaint gwreiddiol y contractau hirdymor | Cyflenwyd hyd at 31/3/17 o dan y contractau hirdymor | Cyfaint trosiannol 2017-18 | Cyfanswm y cyfaint a gyflenwyd | % cyfaint y contractau hirdymor i'w gyflenwi erbyn 31/3/18 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 670,000 o dunelli | 191,300 o dunelli | 41,875 o dunelli | 233,175 o dunelli | 34.8% |
| Coed sy'n sefyll | 1,475,000$m^3$ obs | 498,200$m^3$ obs | 141,000$m^3$ obs | 639,200$m^3$ obs | 43.3% |
| **Cyfanswn yr unedau cyflenwi** | **2,145,000 o unedau** | **689,000 o unedau** | **182,875 o unedau** | **872,375 o unedau** | **40.7%** |

3.26. Roedd y cyfaint trosiannol o 182,875 o unedau cyflenwi a nodwyd yn yr atodiad i e-bost gan Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC at Brif Weithredwr CNC ar y pryd dyddiedig 11 Mai 2017 wedi'i danddatgan. Fel y dengys Tabl 3, roedd CNC wedi cytuno â'r Gweithredwr Melin Lifio yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2017 i ddarparu cyfaint trosiannol o 240,075 o unedau cyflenwi.

3.27. Mae e-bost eglurhaol y Pennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro at Brif Weithredwr CNC yn nodi 'Rwyf wedi trefnu i'r ffigurau ar werthoedd gael eu darparu ac yn gobeithio eu rhoi i chi yfory [12 Mai 2017]'.

3.28. Ar 19 Mai 2017, anfonodd Pennaeth Marchnata newydd ei benodi CNC e-bost at Brif Weithredwr CNC ar y pryd yn atodi fersiwn wedi'i diweddaru o'r daenlen a ddarparwyd i'r Prif Weithredwr ar 11 Mai 2017. Cofnododd y daenlen wedi'i diweddaru fod gwerth amcangyfrifedig y pren a werthwyd i'r Gweithredwr Melin Lifio o adeg cychwyn y contractau hirdymor yn 2014 hyd at 21 Mawrth 2017 yn £11,013,286. Nid yw'r daenlen yn cofnodi gwerth gwerthu amcangyfrifedig y pren yn y contractau trosiannol, er bod y Prif Weithredwr wedi gofyn am y wybodaeth hon yn ei e-bost at Bennaeth Gweithrediadau Masnachol dros dro CNC ar 4 Mai 2017.

# Rhan 4

## 4. Gwerthiannau cytundebol

4.1. Yn ei gynllun trosiannol nododd CNC y byddai'n gwerthu'r pren trosiannol yn raddol (gweler Tabl 4) fel y byddai 90% o'r cyfaint ymyl ffordd a holl gyfaint trosiannol coed sy'n sefyll yn cael eu gwerthu erbyn 31 Rhagfyr 2017. Fel y digwyddodd, roedd gan 9 o'r 11 o gontractau ymyl ffordd gyfnodau contract a oedd yn rhedeg tan 31 Mawrth 2018 a pharhaodd gwerthiannau ar y contractau hyn yn ystod mis Mawrth 2018. O'r 48 o gontractau gwerthu coed sy'n sefyll, roedd gan 26 gyfnodau contract a oedd yn ymestyn y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2017, ac roedd 10 o'r rhain yn ymestyn i 2018-19. Nid oes gan CNC unrhyw ddogfennaeth sy'n nodi'r sail resymegol dros wyro oddi wrth y cynllun trosiannol.

4.2. Mae Tabl 10 yn crynhoi cyfaint y pren a werthwyd yn 2017-18 o dan y contractau trosiannol.

Tabl 10: Pren a werthwyd o dan y contractau trosiannol yn ystod 2017-18 o gymharu â chyfanswm y cyfaint y cytunwyd arno â'r Gweithredwr Melin Lifio a'r cyfaint wedi'i gontractio

| | Cynnig 22/03/2017 | Cynnig 31/03/2017 | Cyfaint wedi'i gontractio | Gwerthiannau trosiannol hyd at 31/03/2018 |
|---|---|---|---|---|
| Pren ymyl ffordd | 12,700 o dunelli | 49,575 o dunelli | 65,377 o dunelli | 45,453 o dunelli |
| Coed sy'n sefyll | 178,500$m^3$ obs | 190,500$m^3$ obs | 253,608$m^3$ obs | 132,439$m^3$ obs |
| **Cyfanswm yr unedau cyflenwi** | **191,200** | **240,075** | **318,985** | **177,892** |

4.3. Ym mis Rhagfyr 2017, dechreuodd fy archwilwyr archwiliad o'r trefniadau trosiannol, ac ers hynny mae CNC wedi ceisio lleihau faint o bren sy'n cael ei werthu o dan y contractau trosiannol i'r eithaf. Mae hyn wedi golygu atal gweithrediadau ar rai contractau a phenderfynu peidio ag estyn cyfnod y contract ar gontractau eraill lle nad oedd y cyfaint a gontractiwyd wedi cael ei ddarparu erbyn diwedd cyfnod y contract. Mae CNC yn amcangyfrif y bydd 40,300$m^3$ obs o goed sy'n sefyll yn cael ei werthu i'r Cwmni Cynaeafu Pren yn 2018-19 o dan delerau'r contractau trosiannol.

4.4. Mae incwm CNC o'r pren a werthwyd o dan y contractau trosiannol yn2017-18 yn werth £2.76 miliwn ac amcangyfrifir y bydd yn werth £0.18 miliwn yn 2018-19.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.